
Gwasanaethau cyfyngedig

Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr a thrwyddedeion

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Beth yw gwasanaeth cyfyngedig?	2
3. Gwybodaeth am wasanaethau cyfyngedig	3
4. Cyn i chi wneud cais am drwydded gwasanaeth cyfyngedig	8
5. Ffioedd	12
6. Sut y bydd ceisiadau am drwyddedau'n cael eu hystyried	15
7. Ceisiadau mewn cyfnod o alw mawr – RSLs ar gyfer digwyddiadau	16
8. Llenwi eich ffurflen gais	19
9. Ar ôl cael trwydded gwasanaeth cyfyngedig	34

Atodiad

A1. Ffioedd	37
A2. Sut i gyfrifo'r ffioedd trwydded	40

1. Trosolwg

- 1.1 Bwriad y nodiadau hyn yw helpu ymgeiswyr am drwyddedau gwasanaeth cyfyngedig (“RSL”) i ddeall y broses drwyddedu. Ni ddylid dibynnu ar y nodiadau cyfarwyddyd fel cyngor cyfreithiol ac ni ddylid eu hystyried fel rhai sy’n addasu effaith y gofynion statudol nac amodau’r drwydded.
- 1.2 Dylai ymgeiswyr ofyn am eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar y broses drwyddedu a’r gofynion, ac wrth wneud eu hasesiad annibynnol eu hunain o’r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eu cais.
- 1.3 Wrth ddarparu’r wybodaeth yn y nodiadau cyfarwyddyd hyn, nid yw Ofcom yn gwneud nac yn awgrymu unrhyw ddyfarniadau ar ragolygon masnachol (neu fel arall) gwasanaethau trwyddedig, nac y byddant yn broffidiol.
- 1.4 Nid yw Ofcom yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantau, penodol neu ymhlyg, mewn perthynas â gwybodaeth yn y nodiadau cyfarwyddyd hyn (ynghyd â’r drwydded safonol a dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon) neu mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth ysgrifenedig neu lafar a wneir neu sydd i’w darparu i unrhyw ddarpar ymgeisydd neu ei gynghorwyr proffesiynol. Felly ymwadir yn benodol ag unrhyw atebolrwydd.
- 1.5 Efallai y bydd y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn cael eu diweddarau o bryd i’w gilydd. Dylai ymgeiswyr edrych ar wefan Ofcom i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio’r fersiwn diweddaraf oherwydd bydd ceisiadau a wnaed ar fersiwn blaenorol o’r ffurflen gais yn cael eu gwrthod. Dylai ymgeiswyr hefyd fod yn ymwybodol y gallai rhai nodweddion allweddol, megis ffioedd, gweithdrefnau a rheolau cynnwys, newid yn y dyfodol.

2. Beth yw gwasanaeth cyfyngedig?

- 2.1 Mae gwasanaethau cyfyngedig yn wasanaethau radio sy'n gwasanaethu ardaloedd bach ac sy'n cael eu darlledu at ddibenion digwyddiadau neu mewn sefydliad neu leoliad penodol yn y DU.
- 2.2 Mae'n bwysig bod y rheini sydd â diddordeb mewn gwneud cais i ddarparu gwasanaeth cyfyngedig yn ymwybodol mai dim ond at y dibenion hyn y gellir eu cyhoeddi. Ni ellir eu defnyddio ar gyfer darparu gwasanaeth radio lleol hirdymor parhaus i boblogaeth neu gymuned breswyl barhaol.
- 2.3 Mae enghreifftiau o wasanaethau cyfyngedig yn cynnwys gwasanaethau radio penodol ar gyfer defodau crefyddol fel Ramadan; gwasanaethau radio ysbyty; gwasanaethau radio prifysgol; traciau sain ar gyfer ffilmiau yn-y-car i mewn a sylwebaeth ar gyfer digwyddiadau fel sioeau awyr.
- 2.4 Mae [rhagor o wybodaeth am fathau eraill o drwyddedau radio darlledu sydd ar gael](#), gan gynnwys ffurflenni cais a nodiadau cyfarwyddyd i ymgeiswyr, ar gael ar ein gwefan.

3. Gwybodaeth am wasanaethau cyfyngedig

Gwasanaethau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau

- 3.1 Fel arfer, bydd trwyddedau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig yn cael eu rhoi i ddigwyddiadau sy'n para am gyfnod byr, a byddant yn cael eu cadw am ddim mwy na mis. Bydd ganddynt ardal ddarlledu sy'n adlewyrchu'r hyn sydd ei angen i wasanaethu'r digwyddiad ei hun. Gall hyn fod mor fach ag adeilad neu arena, neu mor fawr â rhan o dref. Fel arfer, byddant yn cael amledd FM yn yr ystod 87.7 - 87.9 MHz a byddant fel arfer yn trosglwyddo ar gyfradd dros 2 wat.
- 3.2 Fel arfer, cyhoeddir trwyddedau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ar sail y cyntaf i'r felin (ac eithrio mewn cyfnodau o alw mawr, gweler Adran 7), yn amodol ar fodloni'r amodau ar gyfer eu cyhoeddi (fel y nodir yn y nodiadau hyn) a bod amledd addas ar gael.
- 3.3 Ni ddylai hyd y drwydded fod yn fwy o lawer na hyd y digwyddiad dan sylw.
- 3.4 Os yw'r drwydded gwasanaeth cyfyngedig at ddiben darparu ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau yn yr un lleoliad (er enghraifft, sylwebaeth mewn digwyddiadau rasio ceir), bydd y gwasanaeth trwyddedig fel arfer yn gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall (er enghraifft, y gylched rasio ceir) ar yr amod eu bod yn gweithredu o fewn un lleoliad clir sydd fel arfer heb boblogaeth breswyl barhaol (er enghraifft, cylched rasio ceir). Gweler 3.6 i 3.8 isod.
- 3.5 Fel arfer, nid oes terfyn o fewn blwyddyn ar nifer y trwyddedau RSL ar gyfer digwyddiadau y gellir eu caniatáu i unigolyn neu sefydliad. Yr eithriad i hyn yw os yw ymgeisydd am drwydded wedi dal dwy drwydded RSL ar gyfer digwyddiadau yn ystod y 12 mis blaenorol, a'n bod yn cael cais gan ymgeisydd trwydded gwahanol yn yr un ardal. Byddwn wedyn yn blaenoriaethu'r cais gan yr ymgeisydd nad yw wedi dal trwyddedau RSL o'r blaen ar gyfer digwyddiadau, fel eithriad i'n dull gweithredu arferol, sef y cyntaf i'r felin.

Gwasanaethau cyfyngedig i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall

- 3.6 Fel arfer, bydd trwyddedau a roddir ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall yn para am gyfnod hwy, ac fel arfer am nifer o flynyddoedd. Bydd ganddynt ardal ddarlledu fach, nad yw'n fwy na radiws o 1km fel arfer, a byddant yn gweithredu mewn un lleoliad sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sydd heb boblogaeth breswyl barhaol. Rydym yn disgwyl i drwyddedau gael amledd darpariaeth

gyfyngedig¹ (pan fydd ar gael) a bydd gwasanaethau fel arfer yn trosglwyddo ar bŵer o rhwng 300 miliwat ac 1 wat gydag uchafswm pŵer o 2 wat.²

- 3.7 Mae'n debygol y bydd rhywfaint o orlif o'r signal i ardaloedd y tu hwnt i'r sefydliad neu'r lleoliad diffiniedig sy'n cael ei wasanaethu. Ni ddylid cydnabod yr ardal gorlif hon, naill ai ar yr awyr na thrwy hyrwyddo a chyhoeddusrwydd oddi ar yr awyr. Ni ddylid cyfeirio'r gwasanaeth at wrandawyr sy'n byw y tu allan i'r lleoliad trwyddedig.
- 3.8 Nid yw'r cyfyngiad a nodir ym mharagraff 3.7 uchod yn berthnasol mewn achosion lle mae'r gwasanaeth RSL yn darlledu ac yn cael ei gyd-ddarlledu ar yr amlblecs DAB graddfa fach perthnasol (yr amlblecs lle mae'r sefydliad wedi'i leoli). Ar gyfer trwyddedeion lle mae hyn yn wir, rydym yn disgwyl y bydd y gwasanaeth yn cael ei gyfeirio at gynulleidfa ehangach yn ardal ddarpariaeth ardal yr amlblecs, ac y bydd hyn yn agwedd allweddol ar y gwasanaeth DAB (a chyflawni manteision cymdeithasol, ar gyfer trwyddedeion C-DSP). Rhaid i'r drwydded RSL a'r drwydded DSP/C-DSP gael eu dal gan yr un cwmni lle mae'r gwasanaeth yn cyd-ddarlledu. Rhaid i'r trwyddedeion sicrhau bod y gwasanaeth yn uniongyrchol berthnasol i wrandawyr yn y sefydliad, yn ogystal â'r rheini yn yr ardal ddarlledu ehangach, yn unol ag Amod 2(2) o'u trwydded RSL. Dylai'r trwyddedeion hefyd nodi bod rhaid i'r gwasanaeth DSP/C-DSP fod yn darlledu ar gyfer yr eithriad hwn i'r cyfyngiad a nodir ym mharagraff 3.7 i wneud cais; nid yw dal trwydded DSP/C-DSP yn ddigon i'r eithriad fod yn berthnasol.
- 3.9 Yn gyffredinol, mae trwyddedau a roddir ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall yn cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin, yn amodol ar fodloni'r amodau ar gyfer eu rhoi (fel y nodir yn y nodiadau hyn) a bod amllder addas ar gael.

Argaeledd amleddau FM

- 3.10 Byddwn yn ystyried ceisiadau am drwyddedau ar gyfer RSLs i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall ar AM ac FM ledled y DU. Gall trwyddedeion presennol sy'n darlledu ar AM hefyd wneud cais i newid i FM.
- 3.11 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gallai fod rhai ardaloedd yn y DU lle nad ydym yn gallu dod o hyd i amledd FM cyfyngedig addas i'w ddefnyddio, fel arfer mewn ardaloedd trefol. Mae hyn oherwydd bod sbectrwm yn adnodd prin a chyfyngedig, ac mewn rhai rhannau o'r DU nid oes sbectrwm sbâr ar gael.
- 3.12 Os na allwn ddod o hyd i amledd darpariaeth gyfyngedig addas, byddwn yn edrych i weld a ellid defnyddio 87.7 - 87.9 MHz. Dyma'r amleddau a fydd fel arfer yn cael eu rhoi i RSLs i wasanaethu digwyddiadau. Tan 2024, rydym ond yn disgwyl defnyddio 87.7 – 87.9 MHz ar gyfer RSLs i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall os na fu unrhyw RSLs at ddibenion digwyddiad yn yr ardal yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ein diben yw sicrhau na

¹ Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio lefelau pŵer trosglwyddo isel iawn sy'n cael eu 'rhyngddalennu' ymysg y gorsafoedd radio darlledu presennol yn y band FM.

² Os nad oes amledd darpariaeth gyfyngedig ar gael a bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn 87.7 - 87.9 MHz, y pŵer trosglwyddo fel arfer fydd 50mW

fydd trwyddedu RSL i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall yn amharu ar ein gallu i drwyddedu RSLs i ddelio â digwyddiadau mewn ardaloedd cyfagos pan fydd galw rheolaidd amdanynt, a hynny drwy dderbyn ceisiadau amdanynt. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dyletswydd i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael, gan ddarparu ar gyfer amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.

- 3.13 O 1 Ionawr 2024, rydym yn disgwyl lleihau'r cyfnod hwn fel mai dim ond yn y 18 mis cyn y cais y byddwn yn ystyried RSL a ddarperir at ddibenion digwyddiad. Yn ystod y pandemig Covid-19, cafodd llawer o ddigwyddiadau rheolaidd eu canslo ac felly ni chawsom geisiadau amdanynt. Erbyn mis Ionawr 2024, rydym yn rhagweld y bydd cyfnod digonol o amser wedi mynd heibio ers i gyfyngiadau Covid yn y DU gael eu codi er mwyn nodi'r galw rheolaidd am wasanaethau cyfyngedig i wasanaethu digwyddiadau mewn ardal.³
- 3.14 Mae 'Ardal' at y dibenion hyn yn cyfeirio'n gyffredinol at radiws o 12km o leoliad y gwasanaeth cyfyngedig arfaethedig mewn lleoliadau trefol, a 20km mewn lleoliadau gwledig, yn seiliedig ar Ystadegau Swyddogol y Dosbarthiad Gwledig a Threfol. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar dopograffeg leol.

Hyd y drwydded

- 3.15 Gellir rhoi trwydded ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall am unrhyw gyfnod, hyd at uchafswm o bum mlynedd. Dylai ymgeiswyr nodi yn eu cais am ba hyd yr hoffent ddal trwydded.
- 3.16 Caiff trwyddedai wneud cais am drwydded newydd wrth iddo gyrraedd diwedd cyfnod ei drwydded bresennol. Byddai ffi ymgeisio o £200 yn daladwy, yn ychwanegol at y ffioedd trwydded blynyddol, os bydd trwyddedai'n ailymgeisio am drwydded.

Argaeledd trwyddedau

- 3.17 Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl na fydd mwy nag un gwasanaeth cyfyngedig yn gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall. Os oes gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall sydd eisoes yn cael ei wasanaethu gan wasanaeth cyfyngedig, neu os oes gan sawl ymgeisydd ddiddordeb mewn gwasanaethu un safle, cysylltwch â'r tîm drwy anfon e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar y camau nesaf.
- 3.18 Rydym hefyd yn cydnabod, mewn rhai amgylchiadau, y gallai gweithredwr ddyuno gwasanaethu dau neu fwy o safleoedd yn agos at ei gilydd (ond ar wahân, serch hynny) sydd o dan berchnogaeth gyffredin ac sy'n ffurfio gwahanol rannau o'r un sefydliad. Er enghraifft, efallai fod gan brifysgol 'brif gampws' a 'campws lloeren' llai, ac efallai y bydd gweithredwr RSL yn awyddus i wasanaethu'r ddau. Caniateir hyn fel arfer, ond gan amlaf mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd osod trosglwyddydd ar wahân ar bob safle a

³ Os nad ydym yn fodlon bod amgylchiadau wedi caniatáu ailsefydlu'r galw rheolaidd, byddwn yn adolygu eto i bennu a ddylid cynnal y cyfnod o dair blynedd.

defnyddio'r un amledd ar bob safle (gan mai dim ond un amledd RSL y byddwn yn ei roi i bob gweithredwr mewn unrhyw ardal).

- 3.19 Os yw'r safleoedd i'w gwasanaethu o fewn 6km i'w gilydd, efallai y byddant yn cael eu gwasanaethu gan yr un drwydded Deddf Darlledu, ond bydd angen trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr ar wahân ar gyfer pob trosglwyddydd fel arfer. O'r pellter hwn, mae'r angen i ddefnyddio'r un amledd ar bob safle yn awgrymu'r angen i weithio'n gydamserol, lle mae pob trosglwyddydd yn darlledu'r un gwasanaeth rhaglenni, gyda rheolaethau priodol ar waith i gyfyngu ar y gwahaniaethau yn yr union amledd a drosglwyddir a'r oedi cymharol wrth donfeddu'r sain rhwng y trosglwyddyddion ar y rhwydwaith hwn.
- 3.20 Os yw'r safleoedd dros 6km ar wahân, bydd angen trwydded Deddf Darlledu ar wahân ar gyfer pob safle fel arfer (gan gyhoeddi trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr ar wahân hefyd). O'r pellter hwn, gall gwahanol wasanaethau rhaglenni gael eu darlledu gan y trosglwyddyddion ar bob safle, ond bydd angen lleihau pŵer o leiaf un, ac o bosibl y cyfan, o'r safleoedd dan sylw er mwyn atal y gwasanaethau rhag ymyrryd â'i gilydd.

Sefydliadau cosbi

- 3.21 Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwasanaethu sefydliad cosbi wneud cais yn y ffordd arferol, ond oherwydd statws Esemptiad y Goron rhai sefydliadau o'r fath, ni fydd gofyn iddynt ddal trwydded Deddf Darlledu na thrwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, na thalu'r ffioedd trwydded cysylltiedig. Yn lle hynny, mae gorsafodd o'r fath yn cael dau hysbysiad awdurdodi, y naill yn lle trwydded Deddf Darlledu a'r llall yn lle trwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Mae ffi ymgeisio o £200 yn daladwy.

Gwasanaethau cyfyngedig yn Ynys Manaw

- 3.22 Dylai'r rheini sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth cyfyngedig yn Ynys Manaw fod yn ymwybodol nad yw Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau Deddf Darlledu ar gyfer RSLs sy'n darlledu ar Ynys Manaw, ond mae'n rhoi trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i awdurdodi defnyddio'r sbectrum.
- 3.23 I wneud cais am drwydded ddarlledu, ewch i www.cura.im i gael rhagor o wybodaeth.
- 3.24 I wneud cais am drwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, llenwch adrannau 2, 7 i 9 ac 11 i 14 o'r ffurflen gais. Pan fyddwch yn anfon y ffurflen at Ofcom, gwnewch yn glir eich bod yn gwneud cais am drwydded i ddarlledu yn Ynys Manaw.

Trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig yng Ngogledd Iwerddon

- 3.25 Dylai'r rheini sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau cyfyngedig yng Ngogledd Iwerddon fod yn ymwybodol bod patrymau defnyddio amleddau FM yn wahanol i'r rheini ym Mhrydain Fawr oherwydd yr angen cynyddol i gydlynu'r defnydd o sbectrum FM yng Ngogledd Iwerddon â Gweriniaeth Iwerddon yn hytrach na'r hyn sy'n berthnasol mewn llawer o rannau eraill o'r DU. Am y rheswm hwn, fel rheol nid yw'n bosibl i ni ddyrannu

87.7 - 87.9 MHz ar gyfer defnydd RSL yng Ngogledd Iwerddon ac mae cyfleoedd i ddefnyddio amleddau darpariaeth gyfyngedig yn annhebygol o fod mor helaeth ag y maent mewn rhannau eraill o'r DU. Ar ôl cael cais am drwydded ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig yng Ngogledd Iwerddon, bydd Ofcom yn ceisio dod o hyd i amledd addas o'r gronfa o sbectrwm sydd ar gael, gan ddefnyddio naill ai ein dull cynllunio safonol neu'r dull darpariaeth gyfyngedig lle mae'n briodol i'r ddarpariaeth y mae'r ymgeisydd yn gofyn amdani a'r lleoliad lle mae'n bwriadu gwasanaethu.

4. Cyn i chi wneud cais am drwydded gwasanaeth cyfyngedig

Penderfynu pwy ddylai ddal y drwydded

- 4.1 Y trwyddedai yw'r person y bydd dogfennau'r drwydded yn cael eu cyhoeddi yn ei enw. Mae Ofcom o'r farn y bydd gan unigolyn reolaeth gyffredinol dros wasanaeth fel arfer os yw'r person hwnnw'n rheoli'n effeithiol y broses o ddewis rhaglenni sy'n cynnwys y gwasanaeth a'i sefydliad yn unol ag amserlen rhaglenni. Y person hwnnw a fydd fel arfer yn cael ei drin fel darparwr y gwasanaeth perthnasol a'r sawl y bydd angen iddo feddu ar drwydded ddarlledu sy'n awdurdodi ei ddarpariaeth.
- 4.2 Mae'r trwyddedai yn gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddyletswyddau a'r rhwymedigaethau sydd yn y drwydded yn cael eu cyflawni, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion cynnwys a thalu ffioedd.
- 4.3 Os yw'r trwyddedai arfaethedig yn wahanol i'r person neu'r corff sy'n rhedeg y sefydliad y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer (er enghraifft, os nad yr Ymddiriedolaeth sy'n rhedeg yr ysbyty yw'r ymgeisydd am wasanaeth radio ysbyty), rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'r cais sy'n dangos bod y sefydliad perthnasol yn cefnogi'r cais.
- 4.4 Os ydych yn gwneud cais ar ran corff corfforaethol, er enghraifft, ar ran cwmni, rhaid i chi fod â'r awdurdod priodol i wneud y cais. Yn achos cwmni, ysgrifennydd neu gyfarwyddwr y cwmni ddylai hyn fod.
- 4.5 Ar ôl caniatáu trwydded, gellir ei throsglwyddo i drwyddedai newydd yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Ofcom. Bydd angen i Ofcom fod yn fodlon nad yw'r person neu'r corff y mae'n bwriadu trosglwyddo trwydded iddo wedi'i anghymhwysu rhag dal trwydded Deddf Darlledu, ei fod mewn sefyllfa i gydymffurfio ag amodau'r drwydded, a'i fod yn berson addas a phriodol.

Cyflwyno cais dilys

- 4.6 **Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn ofalus cyn gwneud cais.** Mae Adran 8 yn nodi cyfarwyddiadau manwl ar sut i lenwi'r ffurflen gais, ac mae adran 5 yn nodi'r ffioedd cysylltiedig.
- 4.7 Gall y nodiadau cyfarwyddyd hyn a'r ffurflen gais gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Dylai ymgeiswyr edrych ar wefan Ofcom cyn cyflwyno eu cais i sicrhau eu bod wedi darllen a chwblhau'r fersiwn cyfredol o'r dogfennau hyn.
- 4.8 Mae modd cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

- 4.9 Os oes gennych chi ymholiad, gallwch gysylltu ag Ofcom drwy anfon e-bost at (broadcast.licensing@ofcom.org.uk). Ni allwn ddarparu cyngor na chymeradwyo ceisiadau ymlaen llaw, ond gallwn ateb cwestiynau cyffredinol.
- 4.10 Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais ac ateb “Dd/b” i unrhyw gwestiynau nad ydynt yn berthnasol i’r ymgeisydd. Atebwch bob cwestiwn mor llawn â phosibl, gwnewch y blychau yn fwy neu defnyddiwch ddalenni ychwanegol os oes angen, ac eto os oes angen, anfonwch gopiâu o ddogfennau eraill i egluro ateb. Rhaid i chi hefyd ddarparu’r dogfennau ategol a restrir yn yr adran Rhestr Wirio ar y ffurflen gais.
- 4.11 Gofynnwn i ymgeiswyr llenwi’r ffurflen yn electronig drwy lawrlwytho’r fersiwn cyfredol o’r ffurflen gais y gellir ei golygu [oddi ar ein gwefan](#). Mae Ofcom yn derbyn ffurflenni cais mewn llawysgrifen ond rhaid eu llenwi gan ddefnyddio priflythrennau ac inc du. **Gallai Ofcom wrthod ceisiadau a wneir gan ddefnyddio fersiwn blaenorol o’r ffurflen ac unrhyw ffurflenni cais nad oes modd eu darllen.**
- 4.12 Dylech anfon y ffurflen gais wedi’i chwblhau a’r dogfennau ategol i broadcast.licensing@ofcom.org.uk. Dylech dderbyn ateb awtomatig yn cadarnhau bod Ofcom wedi derbyn eich e-bost. Os na fyddwch yn cael ymateb, mae’n debygol na fydd eich cais wedi’i dderbyn a dylech gysylltu â’r llinell Gymraeg er mwyn i ni gael trafod y mater ac ymchwilio i hyn ymhellach ar eich rhan.
- 4.13 Sylwch na all Ofcom dderbyn negeseuon e-bost sy’n fwy na 35MB. Os yw e-bost eich cais yn fwy na’r terfyn hwn anfonwch eich dogfennau ategol mewn neges e-bost ar wahân, sy’n nodi’n glir enw’r ymgeisydd yn llinell pwnc yr e-bost ynghyd â “RSL”.
- 4.14 Er ei bod yn well gennym dderbyn ceisiadau drwy e-bost, os oes angen i chi anfon y cais drwy’r post, gallwch ei anfon at:
- Broadcast Licensing
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain
SE1 9HA
- 4.15 Gellir gwrthod ceisiadau nad ydynt yn cael eu cyflwyno o fewn yr amserlenni canlynol:
- a) Ceisiadau a gyflwynir yn gynharach na 120 diwrnod clir cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau darlledu.
 - b) Ceisiadau a gyflwynir yn hwyrach na 60 diwrnod clir rhwng y dyddiad y mae Ofcom yn derbyn y cais a’r dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau darlledu.
 - i) Mae “diwrnodau clir” yn golygu na fyddwn yn cyfrif y dyddiad derbyn na’r dyddiad dechrau darlledu a dim ond y diwrnodau cyfan rhwng y ddau ddyddiad hynny y byddwn yn eu cyfrif. Pan fydd y dyddiad cau ar benwythnos neu ar wyl gyhoeddus, byddwn yn ystyried ei fod ar y diwrnod cyntaf o’r wythnos nad yw’n wyl gyhoeddus sydd yn syth ar ei ôl.

- ii) Cymerir bod gwyliau cyhoeddus y DU yn golygu'r rheini a ddiffinnir gan Lywodraeth y DU. Er mwyn ystyried y ffaith bod yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael mwy o wyliau cyhoeddus na Chymru a Lloegr, byddwn yn cyfrif y gwyliau cyhoeddus sy'n berthnasol i'r wlad yn y DU lle bydd y darlledu arfaethedig yn digwydd.
- 4.16 Bydd unrhyw gais am drwydded RSL ar gyfer digwyddiad yn ystod cyfnod o alw mawr (gweler Adran 7) a dderbynnir ar ôl i'r ffenestr ymgeisio penodedig gau ond yn cael ei ystyried os yw ar gyfer ardal nad ydym eisoes wedi cael cais ar ei chyfer, ac yn amodol ar argaeledd amledd addas. Bydd ceisiadau a dderbynnir cyn i ffenestr ymgeisio agor yn cael eu gwrthod.
- 4.17 Caiff Ofcom hefyd wrthod cais ar sail benodol:
- a) Ceisiadau a gyflwynir drwy ddefnyddio fersiynau blaenorol o'r ffurflen gais.
- b) Methu â chyflwyno'r dogfennau ategol gofynnol ar ffurf ddarllenadwy.
- c) Methu â thalu'r ffi ymgeisio, y dylid ei thalu ar yr un diwrnod ag y bydd y cais yn cael ei anfon at Ofcom. Dylid gwneud taliadau drwy drosglwyddiad banc i:
- Enw'r Cyfrif: Office of Communications
- Manylion banc: Lloyds, 69-73 Borough High Street, Llundain SE1 1NQ
- Rhif y cyfrif: 00782415
- Cod didoli 30-97-90
- BIC: LOYDGB21351
- IBAN: GB05 LOYD 3097 9000 7824 15
- SWIFT: LOYD GB 2L
- d) Ceisiadau lle nad yw'r datganiad wedi'i lofnodi a'i ddyddio.
- e) Ceisiadau lle mae'r datganiad wedi'i lofnodi gan rywun nad yw wedi'i awdurdodi'n briodol i wneud y cais. Rhaid i'r sawl sy'n llofnodi'r cais fod yn un o'r canlynol:
- Cyfarwyddwr y cwmni neu ysgrifennydd y cwmni lle mae'r ymgeisydd yn gwmni.
 - Aelod dynodedig pan fo'r ymgeisydd yn Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig.
 - Partner, pan fo'r ymgeisydd yn bartneriaeth.
 - Aelod o gorff llywodraethu'r sefydliad pan fo'r ymgeisydd yn gorff neu'n gymdeithas anghorfforedig.
 - Yr unigolyn a fydd yn dal y drwydded pan fo'r ymgeisydd yn unigolyn.
- f) Ar gyfer ceisiadau am RSL i wasanaethu digwyddiad, ceisiadau lle mae hyd arfaethedig y darlledu'n sylweddol hwy na'r cyfnod go iawn ar gyfer cynnal y digwyddiad.

Amserlenni

- 4.18 Ein nod yw rhoi ateb i chi ar eich cais o fewn 25 diwrnod gwaith (ar gyfer RSLs i wasanaethu sefydliadau a lleoliadau diffiniedig eraill) neu ddim hwyrach na phythefnos cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau darlledu (ar gyfer RSLs i wasanaethu digwyddiadau). Fodd

bynag, ni ellir gwarantu hyn. Caiff ceisiadau eu hasesu ar sail y cyntaf i'r felin, ac yn ystod cyfnodau brig gall gymryd mwy o amser i ni asesu ceisiadau. Mae'r amserlen hefyd yn tybio bod yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth lawn a chywir yn y ffurflen gais a'r dogfennau cysylltiedig. Ni fydd ceisiadau'n cael eu hasesu nes bydd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi dod i law. Os oes angen clirio amledd gan gyrff eraill (er enghraifft yr Awdurdod Hedfan Sifil), bydd yn cymryd mwy o amser na'r amserlenni hyn i gwblhau ein gwaith ar eich cais.

- 4.19 Gall ceisiadau lle mae problemau posibl yn codi yn ymwneud â chyfyngiadau ar berchnogaeth a gofynion cymhwysedd gymryd mwy o amser i'w hasesu. Cynghorir ymgeiswyr ag amcanion crefyddol hefyd i ganiatáu mwy o amser ar gyfer asesu ac ystyried eu cais gan Ofcom yng ngoleuni'r [Canllawiau ar gyfer cyrff crefyddol sy'n gwneud cais am drwydded Deddf Darlledu.](#)
- 4.20 Mae ceisiadau am wasanaethau arfaethedig yng Ngogledd Iwerddon yn cymryd mwy o amser i'w hasesu oherwydd mae angen i beirianwyr ym mhrif swyddfa Ofcom weithio gyda pheirianwyr yn swyddfa Ofcom yn Belfast i ddod o hyd i amleddau addas.
- 4.21 Er mwyn gallu ystyried cais yn llawn, efallai y bydd angen i ni ofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad gan yr ymgeisydd.
- 4.22 Mewn achosion lle mae Ofcom wedi cyflwyno gweithdrefnau sancsiynau yn erbyn trwyddedai presennol a allai arwain at ddirymu unrhyw drwydded(au) sydd ganddo, fel rheol ni fydd yn ystyried unrhyw geisiadau am drwyddedau newydd gan yr un trwyddedai neu gan unigolyn/corff sy'n gysylltiedig â'r trwyddedai hwnnw hyd nes i'r agwedd honno ar y weithdrefn sancsiynau yn erbyn y trwyddedai cysylltiedig presennol ddod i ben. Yn yr un modd, ni fydd Ofcom fel arfer yn ystyried ceisiadau trosglwyddo naill ai i neu oddi wrth drwyddedai tra bo gweithdrefn sancsiynau a allai arwain at ddirymu trwydded yn parhau.

5. Ffioedd

Dulliau talu

- 5.1 Gall gwahanol ddulliau talu gymryd gwahanol gyfnodau o amser i'w clirio yng nghyfrif banc Ofcom. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio faint o amser y bydd y dull talu o'u dewis yn ei gymryd i drosglwyddo a chlirio i gyfrif Ofcom a sicrhau bod hyn yn galluogi'r taliad i gyrraedd Ofcom erbyn y dyddiad cau penodedig.

Ffi ymgeisio

- 5.2 Ar gyfer ceisiadau am drwyddedau ar gyfer RSLs i wasanaethu digwyddiadau, bydd ffi ymgeisio o £400 nad oes modd ei had-dalu yn daladwy.
- 5.3 Ar gyfer ceisiadau am drwyddedau ar gyfer RSLs i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall, bydd ffi ymgeisio o £200 nad oes modd ei had-dalu yn daladwy.
- 5.4 Dylid talu'r ffi ymgeisio ar yr un pryd ag y mae'r cais yn cael ei anfon at Ofcom.
- 5.5 Yn gyffredinol, ni ellir ad-dalu'r ffi ymgeisio. Os na allwn roi trwydded am resymau y tu hwnt i reolaeth ymgeisydd (er enghraifft, oherwydd diffyg amledd addas), mae'n bosibl y bydd y ffi ymgeisio'n cael ei had-dalu. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i gadw'r ffi ymgeisio o dan amgylchiadau eraill os teimlwn fod cyfiawnhad dros y cam gweithredu hwn (er enghraifft, os ydym wedi treulio amser yn prosesu cais ac yn cysylltu ag ymgeisydd cyn ei wrthod).

Ffioedd trwydded

- 5.6 Dylid talu'r ffioedd trwydded hefyd ar yr un pryd ag y bydd y cais yn cael ei anfon at Ofcom. Mae set o ddwy ffi trwydded y mae'n rhaid eu talu cyn y gall darlledu ddechrau – ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Nid yw talu ffioedd trwydded yn gwarantu nac yn arwydd o lwyddiant y cais. Os bydd y cais yn aflwyddiannus, bydd y ffioedd trwydded blynyddol yn cael eu had-dalu. Os rhoddir y trwyddedau, anfonir anfonebau ffi'r drwydded gyda'r trwyddedau ar gyfer cofnodion yr ymgeisydd.
- 5.7 Ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sydd â chyfnod trwydded o fwy na blwyddyn, mae'r ffioedd trwydded yn daladwy bob blwyddyn ar ben-blwydd dyddiad dyfarnu'r drwydded, tan ddiwedd cyfnod y drwydded.
- 5.8 Ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n trosglwyddo ar gyfradd hyd at ac yn cynnwys 2 Wat, codir tâl cyfradd ddyddiol o £30 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £40 am ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, hyd at derfyn blynyddol o £150 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £200 am ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr.
- 5.9 Ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n trosglwyddo ar gyfradd dros 2 Wat, codir tâl cyfradd ddyddiol o £30 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £40 am ffi trwydded y Ddeddf

Telegraffiaeth Ddi-wifr, hyd at derfyn blynyddol o £900 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £1200 am ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr.

- 5.10 Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu sefydliadau neu leoliadau diffiniedig eraill yn trosglwyddo ar gyfradd hyd at ac yn cynnwys 2 Wat, a bydd y rhan fwyaf o wasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu digwyddiadau yn trosglwyddo ar gyfradd dros 2 Wat.
- 5.11 Mae'r ffioedd trwydded i'w gweld yn fwy manwl yn Atodiad 1. I gyfrifo'r ffi drwydded y bydd angen i chi ei thalu gyda'ch cais, gweler Atodiad 2 o'r nodiadau cyfarwyddyd ar wasanaethau cyfyngedig.
- 5.12 Ni ellir ad-dalu ffioedd trwydded ar ôl i drwyddedau gael eu cyhoeddi a phan fydd y dyddiad dechrau darlledu wedi mynd heibio.
- 5.13 Ar gyfer trwyddedau RSL a roddir ar gyfer digwyddiadau, os bydd trwyddedai yn dweud wrthym fod y digwyddiad yn cael ei ganslo ar ôl i ni gael cais ond **cyn** i ni gyhoeddi'r trwyddedau, neu ar ôl i ni gyhoeddi eu trwyddedau ond **cyn** y dyddiad dechrau darlledu, byddwn yn ad-dalu ffioedd y drwydded. Ni fydd modd ad-dalu'r ffi ymgeisio yn y sefyllfa hon.
- 5.14 Nid yw TAW yn daladwy ar ffioedd RSL.

Manylion banc

- 5.15 Rydym yn gofyn i'r ffioedd ymgeisio a ffioedd y drwydded gael eu talu drwy drosglwyddiad banc.
- 5.16 Dyma fanylion banc i'w defnyddio i dalu'r ffioedd ymgeisio a'r ffioedd trwydded:
- Enw'r Cyfrif: Office of Communications
- Manylion banc: Lloyds, 69-73 Borough High Street, Llundain SE1 1NQ
- Rhif y cyfrif: 00782415
- Cod didoli 30-97-90
- BIC: LOYDGB21351
- IBAN: GB05 LOYD 3097 9000 7824 15
- SWIFT: LOYD GB 2L
- 5.17 Er mwyn sicrhau bod Ofcom yn gallu adnabod y taliad, mae'n rhaid iddo gynnwys cyfeirnod talu sef 'RSL' ac yna enw'r ymgeisydd neu enw'r gwasanaeth arfaethedig (neu gymaint o'r enw ag sy'n bosibl ei ddarparu o fewn terfyn nifer y nodau a bennir gan y banc).

Ffioedd diwygio

- 5.18 Os yw ymgeisydd yn dymuno diwygio manylion ei gais ar ôl i Ofcom ei dderbyn, ond cyn i drwydded gael ei rhoi, mae ffi diwygio o £200 yn daladwy. Dylai'r diwygiadau ond ymwneud â newidiadau nad oes angen ailgynllunio amledd ar eu cyfer, fel newid deiliad arfaethedig y drwydded. Dylid talu'r ffi diwygio drwy drosglwyddiad banc ar yr adeg y gofynnir am y diwygiad:
- Enw'r Cyfrif: Y Swyddfa Gyfathrebiadau
- Manylion banc: Lloyds, 69-73 Borough High Street, Llundain SE1 1NQ
- Rhif y cyfrif: 00782415
- Cod didoli 30-97-90
- BIC: LOYDGB21351
- IBAN: GB05 LOYD 3097 9000 7824 15
- SWIFT: LOYD GB 2L
- 5.19 Ni ddylai ymgeiswyr wneud unrhyw newidiadau i fanylion safle trosglwyddydd na dyddiadau darlledu ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno. Y rheswm am hyn yw bod rhaid i Ofcom wedyn ail-wneud ein gwaith cynllunio amledd ar gyfer y digwyddiad neu'r sefydliad arfaethedig neu'r lleoliad diffiniedig, ac ardaloedd sy'n gorgyffwrdd.
- 5.20 Os gwneir cais am newidiadau i safle'r trosglwyddydd neu ddyddiadau darlledu, bydd hyn fel arfer yn golygu cost trwydded WTA (y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr) newydd.**
- 5.21 Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl na chodwn gost trwydded WTA newydd. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys pan na ellir cadarnhau'r dyddiadau darlledu ar yr adeg y gwneir y cais am drwydded, fel ceisiadau am RSLs ar gyfer Ramadan, pan fydd y dyddiad dechrau darlledu yn dibynnu ar edrychiad y lleuad.
- 5.22 Byddwn hefyd ond yn derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr presennol i ohirio'r darllediad arfaethedig hyd at ddyddiad dechrau sydd o fewn 120 diwrnod o ddyddiad y cais.
- 5.23 Mae angen i ni wneud rhagor o waith cynllunio amledd ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau i ohirio (sy'n arwain at gostau ychwanegol i Ofcom). Felly, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn caniatáu ceisiadau i ohirio. Er enghraifft, fe wnaethom ganiatáu gohirio pan gafodd digwyddiadau eu canslo oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Ni fyddem yn disgwyl caniatáu cais i ohirio am resymau fel methu â gwerthu llawer o docynnau.
- 5.24 Bydd Ofcom hefyd yn gwrthod unrhyw gais am newid sydd, yn ein barn ni, yn rhy agos at y dyddiad dechrau darlledu i gael ei weithredu.

6. Sut y bydd ceisiadau am drwyddedau'n cael eu hystyried

- 6.1 Dull cyffredinol Ofcom yw ystyried ceisiadau am drwyddedau ar sail y cyntaf i'r felin. Rhaid cyflwyno cais o fewn o leiaf 60 diwrnod clir rhwng y dyddiad y bydd Ofcom yn derbyn y cais a'r dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau darlledu. Mae hyn yn rhoi digon o amser i Ofcom brosesu'r cais, nodi amledd addas a chasglu ffioedd trwydded y Ddeddf Darlledu a'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Gellir gwrthod ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau hwn.
- 6.2 Ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno ar sail y cyntaf i'r felin, ond eu gwrthod am unrhyw un o'r rhesymau ym mharagraff 4.17, gall yr ymgeisydd wedyn gyflwyno cais arall a fydd, gan dybio ei fod yn bodloni'r meini prawf hynny a gyda 60 diwrnod clir cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau darlledu, yn cael ei dderbyn os nad yw ymgeisydd arall wedi gwneud cais yn y cyfamser am wasanaeth ar gyfer yr un digwyddiad, neu wasanaeth gwahanol ond yn yr un lleoliad.

7. Ceisiadau mewn cyfnod o alw mawr – RSLs ar gyfer digwyddiadau

- 7.1 Ar gyfer RSLs i wasanaethu digwyddiadau, os ydym yn rhagweld y byddwn yn cael nifer fawr o geisiadau am ddarllediadau yn yr un ardal ddaearyddol neu ardal debyg mewn cyfnod penodol o amser (er enghraifft, yn ystod Ramadan), efallai na fyddwn yn defnyddio ein dull arferol o'r cyntaf i'r felin.
- 7.2 Yn hytrach, gall Ofcom wahodd ceisiadau i gael eu cyflwyno o fewn cyfnod penodol. Byddwn wedyn yn penderfynu a ddylid dyfarnu'r drwydded drwy ddewis ar hap, gan ystyried nifer y ceisiadau a ddaw i law ac argaeledd amleddau addas. Bydd dyddiadau'r cyfnod ymgeisio yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar ein gwefan. I wneud yn siŵr eich bod yn cael gwybod am y cyhoeddiadau hyn, efallai yr hoffech danysgrifio i'n [diweddariadau darlledu dros e-bost](#) ar wefan Ofcom.
- 7.3 Ni fyddwn yn gallu cadarnhau a ydym wedi cael ceisiadau eraill ar gyfer yr un cyfnod neu ddigwyddiad yn yr un ardal mewn ymateb i ymholiadau unigol gan ymgeiswyr, tra bod y cyfnod hwnnw yn parhau i fod ar agor.
- 7.4 Bydd unrhyw gais am drwydded am RSL ar gyfer digwyddiad yn ystod cyfnod o alw mawr a dderbynnir ar ôl i'r cyfnod ymgeisio penodedig (gweler uchod) gau yn cael ei ystyried dim ond os yw ar gyfer ardal nad ydym eisoes wedi cael cais ar ei chyfer, ac yn amodol ar argaeledd amledd addas. Bydd ceisiadau a dderbynnir cyn i ffenestr ymgeisio agor yn cael eu gwrthod. Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau gau, byddwn yn cyhoeddi rhestr o ardaloedd y mae ceisiadau wedi dod i law ar eu cyfer ar [ein gwefan](#).
- 7.5 Pan nad yw Ofcom wedi rhagweld nifer fawr o geisiadau am ddarllediadau yn yr un ardaloedd daearyddol neu ardaloedd daearyddol tebyg, ond ei fod yn cael dau gais neu fwy ar yr un diwrnod 120 o ddiwrnodau cyn y dyddiadau darlledu y gofynnwyd amdanynt, gyda'r ddau ohonynt yn bwriadu darlledu i ardal debyg mewn cyfnod tebyg, byddwn yn penderfynu drwy ddewis ar hap, p'un a yw'r gwasanaethau'n bwriadu darlledu'r un digwyddiad ai peidio.⁴ Bydd Ofcom yn rhoi gwybod i ymgeiswyr os yw'n bwriadu dyfarnu trwydded drwy ddewis ar hap.
- 7.6 Ar ôl i'r cyfnod ymgeisio gau, byddwn yn gwirio pob cais i sicrhau ei fod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 4.17. Bydd unrhyw geisiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn cael eu gwrthod a byddwn yn rhoi crynodeb o'r rheswm dros wrthod i'r ymgeisydd.
- 7.7 Fel arfer, ni ellir ad-dalu ffioedd ymgeisio ar gyfer ceisiadau a wneir mewn cyfnod o alw mawr.

⁴ Oni bai bod trefnydd digwyddiad swyddogol sy'n gallu rhoi gwybod i Ofcom pa gais mae'n ei gefnogi. Gweler paragraff 8.43

- 7.8 **Sylwch: mae'n bosibl na fydd angen casglu ffioedd trwydded yn ystod y cam ymgeisio ar gyfer ceisiadau a wneir mewn cyfnod o alw mawr.** Bydd y broses yn cael ei nodi yn y gwahoddiad i wneud cais a gyhoeddir ar ein gwefan.

Os oes un amledd ar gael

- 7.9 Yn gyffredinol, dim ond un amledd fydd ar gael i'w ddefnyddio mewn ardal, fel arfer yn yr ystod 87.7 - 87.9 MHz. Bydd pob ymgeisydd mewn ardal yn cael ei gynnwys mewn proses dewis ar hap (ni waeth beth yw pwrpas y digwyddiad y maent yn dymuno ei gynnal) a byddai gan bob un gyfle cyfartal i sicrhau'r un amledd hwn.

Os oes mwy nag un amledd ar gael

- 7.10 Ar adegau, efallai y bydd amleddau ychwanegol y gellir eu defnyddio, y tu allan i'r ystod o amleddau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer RSLs.⁵ Mae gennym ddisgresiwn i ddefnyddio sbectrwm yn y ffordd orau bosibl ac felly, os byddwn yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, byddwn weithiau'n gosod amleddau y tu allan i'r ystod 87.7-87.9 MHz. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, rydym yn disgwyl na fydd yr un amledd ychwanegol (neu dim ond un amledd ychwanegol) y gellir ei ddefnyddio i gyflawni'r ddarpariaeth a ddisgwylir fel arfer gan ymgeiswyr am RSLs ar gyfer darlledu digwyddiad. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o'r ardaloedd rydym yn cael ceisiadau ar eu cyfer yn ystod cyfnod o alw mawr yn ardaloedd trefol, lle mae llai o sbectrwm ar gael.
- 7.11 Os oes mwy nag un amledd ar gael, gallwn ddewis mwy nag un broses dewis ar hap er mwyn sicrhau ein bod yn dyrannu'r holl amleddau sydd ar gael. Byddwn yn cynnal prosesau dewis ar hap yn unol â'r ceisiadau y byddwn yn eu derbyn, ac yn y ffordd sydd, yn ein barn ni, yn fwyaf addas ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau.

Dewis ar hap

- 7.12 Ar gyfer y broses dewis ar hap, byddwn yn dewis pob ymgeisydd yn ei dro, gan nodi'n ffurfiol ym mha drefn y cawsant eu dewis.
- 7.13 Bydd pob proses dewis ar hap yn cael ei ffilmio a bydd y recordiad yn cael ei gyhoeddi ar YouTube am gyfnod byr ar ôl hynny. Byddwn yn e-bostio'r ddolen i'r fideo at yr ymgeiswyr hynny a oedd yn rhan o'r broses dewis ar hap.
- 7.14 Yn fuan ar ôl y broses dewis ar hap, byddwn yn cyhoeddi ar ein gwefan restr o'r drefn y cafodd pob cais ei ddewis.
- 7.15 Ar ôl y broses dewis ar hap, byddwn yn asesu'r ceisiadau'n llawn. Os nad yw'r ymgeisydd cyntaf i'w ddewis ar hap yn gymwys i ddal trwydded neu os yw'n methu ag ymateb i ymholiadau o fewn cyfnod amser a bennir gennym, byddwn yn gwrthod y cais ac yn asesu

⁵ Mae'r amleddau ychwanegol hyn yn wahanol i amleddau darpariaeth gyfyngedig. Yn gyffredinol, mae amleddau ychwanegol o'r fath yn ddyraniadau pŵer uwch yn gyffredinol, ac fel y nodwyd uchod, dim ond mewn nifer cymharol gyfyngedig o leoliadau y byddant ar gael yn ystod cyfnodau o alw mawr.

cais yr ail ymgeisydd a ddewiswyd ar hap, ac yn y blaen. Byddwn yn parhau â'r broses hon nes byddwn yn asesu cais y gallwn ei ganiatáu. Os na fydd yr un o'r ceisiadau'n gymwys, ni fydd trwydded yn cael ei dyfarnu.

- 7.16 Mae'n debygol y bydd angen i ni asesu ar yr un pryd y cais cyntaf a'r ail gais o leiaf a ddewiswyd ar hap, er mwyn paratoi ar gyfer y risg y gallai fod problemau o ran a yw'r ymgeisydd cyntaf yn bodloni ein gofynion trwyddedu, a gall y rhain gymryd peth amser i'w datrys. Os byddwn yn gofyn i'r ail ymgeisydd (neu ymgeisydd diweddarach) am fanylion er eglurhad, byddwn yn ei gwneud yn glir nad nhw yw'r cyntaf yn y broses asesu ac os bydd yr ymgeisydd cyntaf a gafodd ei ddewis ar hap yn bodloni ein gofynion, yr ymgeisydd hwnnw fydd yn cael y drwydded.
- 7.17 Os byddwn yn gwrthod cais oherwydd methiant i fodloni ein meini prawf trwyddedu, byddwn yn rhoi crynodeb o'r rheswm dros wrthod i'r ymgeisydd, ond ni fyddwn yn adaldu'r ffi ymgeisio.
- 7.18 Mae Ofcom yn cadw'r hawl i amrywio'r rheolau ar gyfer y broses dewis ar hap a amlinellir uchod os oes cyfiawnhad dros hynny yn ôl amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, bydd unrhyw newid i'r broses dewis ar hap yn cael ei nodi'n glir gan Ofcom yn ein cyfathrebu am y broses.

8. Llenwi eich ffurflen gais

Diogelu Data

8.1 Mae angen yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen gais arnom er mwyn i ni gyflawni ein dyletswyddau trwyddedu o dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996, a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Edrychwch ar [Ddatganiad Preifatrwydd Cyffredinol](#) Ofcom i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn delio â'ch gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol.

Adran 2: Manylion yr ymgeisydd

- 8.2 Yn Adran 2 o'r ffurflen gais, rydym yn gofyn i chi am fanylion sylfaenol yr ymgeisydd (boed yn unigolyn neu'n gorff corfforaethol) sy'n bwriadu darparu'r gwasanaeth.
- 8.3 Mae'r manylion y gofynnir amdanynt yn cynnwys rhif cofrestru'r cwmni (lle bo hynny'n berthnasol) a gwybodaeth gyswllt.
- 8.4 Rydym yn gofyn am yr wybodaeth hon fel bod Ofcom yn gwybod yn union â phwy i gysylltu ar ran y cwmni sy'n ymgeisio yn ystod y broses ymgeisio ac os caiff trwydded ei dyfarnu iddynt.
- 8.5 Os bydd unrhyw un o'r unigolion a enwir yn eich ymatebion yn cael eu hadnabod dan fwy nag un enw/fersiwn o'u henw, rhaid darparu pob enw.
- 8.6 Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais am drwydded RSL, un o amodau eich trwydded fydd bod yn rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i Ofcom cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yr adran hon.
- 8.7 Gofynnir i'r ymgeisydd am fanylion cyswllt y cysylltiadau canlynol:
- **Y sawl sydd wedi'i awdurdodi i wneud y cais:** Dyma'r person sydd wedi'i awdurdodi'n briodol gan yr ymgeisydd at ddibenion gwneud y cais. Os yw'r ymgeisydd yn unigolyn, bydd angen darparu eu manylion. Os yw'r ymgeisydd yn gorff corfforaethol, rhaid darparu manylion ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr neu (os yw'n Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig) aelod dynodedig. Os yw'n bartneriaeth, dylai hwn fod yn bartner. Os yw'n gorff neu'n gymdeithas anghorfforedig, dylai hwn fod yn aelod o gorff llywodraethu'r sefydliad.
 - **Cyswllt y drwydded:** Dyma'r cyswllt o ddydd i ddydd i Ofcom ar faterion trwyddedu. Gallai enghreifftiau o'r math o gyfathrebu rhwng cyswllt y drwydded ac Ofcom gynnwys cwestiynau am berchnogaeth y trwyddedai; newidiadau i'r drwydded; ac ymatebion i geisiadau am wybodaeth. Cyswllt y drwydded hefyd yw'r cyswllt brys ar gyfer Ofcom, a all ddarparu mynediad i'r trosglwyddyd a'i gau i lawr os oes angen os bydd ymyrraeth neu broblemau eraill yn codi yn ystod y darllediad.
 - **Swyddog cydymffurfio:** Dyma'r person y gall Ofcom gysylltu ag ef ynghylch materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Cod Darlledu a chodau a rheolau eraill. Os byddwn yn derbyn cwyn am y gwasanaeth trwyddedig, byddwn yn cysylltu â'r swyddog cydymffurfiaeth i ofyn

am recordiadau o'r allbwn. Byddwn yn gohebu â'r swyddog cydymffurfiaeth yn ystod unrhyw ymchwiliadau i weld a oedd y cynnwys yn cydymffurfio â'n codau a'n rheolau.

- **Cyswllt Bilio/Cyllid:** Manylion cyswllt ar gyfer Ofcom ynghylch anfonebu/talu'r ffioedd trwydded.
- **Cyswllt ar gyfer y cyhoedd:** Manylion cyswllt i'w cyhoeddi ar wefan Ofcom a/neu mewn cyhoeddiadau perthnasol eraill gan Ofcom. Pan fydd trwydded yn cael ei rhoi, bydd enw'r gwasanaeth, manylion cyswllt y trwyddedai, hyd y drwydded a disgrifiad byr o'r gwasanaeth trwyddedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom. Ni chaiff enw cyswllt y drwydded ei gyhoeddi.

Ffynonellau cyllid

- 8.8 Mae Ofcom yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu manylion am ei ffynhonnell cyllid er mwyn i Ofcom allu sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn anghymwys i ddal trwydded o dan Atodlen 2 o Ddeddf Darlledu 1990, er enghraifft, lle mae'r cyllidwr yn gorff gwleidyddol neu, ym marn Ofcom, yn ymddangos fel petai'n dylanwadu ar weithgareddau'r ymgeisydd mewn ffordd a allai fod yn niweidiol i'r budd cyhoeddus. Gall dylanwad o'r fath gynnwys, er enghraifft, rheoli'r orsaf a/neu gynnwys ei rhaglenni, ond gallai hefyd ymestyn i weithgareddau eraill yr ymgeisydd.
- 8.9 Mae angen gwybodaeth arnom am unrhyw gyllid gan, neu ar ran, sefydliad gwleidyddol neu gorff crefyddol a gofynnwn am hyn yn y ffurflen gais.

Adran 3: Manylion cyfarwyddwyr, aelodau dynodedig, cyfranogwyr a chyfranddalwyr (e.e. ar gyfer cwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig)

- 8.10 Mae adran 3 o'r ffurflen gais yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n gyrff corfforaethol (e.e. cwmnïau neu Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig). Os ydych yn gwneud cais fel:
- a) Partneriaeth nad yw'n Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig, ewch i Adran 4 o'r ffurflen gais.
 - b) Corff anghorfforedig, ewch i Adran 5 y ffurflen gais.
 - c) Unigolyn, ewch i Adran 6 y ffurflen gais.
- 8.11 Cyn llenwi Adran 3 o'r ffurflen, dylech hefyd ddarllen [Canllaw Ofcom ar y diffiniad o 'reolaeth' ar gwmnïau cyfryngau](#).
- 8.12 Yn Adran 3, rydym yn gofyn am fanylion y cyfarwyddwyr neu'r aelodau dynodedig, ei gyfranddalwyr a'i gyfranogwyr. Pan fo'n berthnasol, rydym hefyd yn gofyn am fanylion cyfarwyddwr neu aelodau dynodedig rhiant-gwmni a chwmnïau cysylltiedig yr ymgeisydd, ac ati.
- 8.13 Os bydd unrhyw un o'r unigolion a enwir yn eich ymatebion yn cael eu hadnabod dan fwy nag un enw/fersiwn o'u henw, rhaid darparu pob enw.

8.14 Dylid ehangu neu ailadrodd y blychau ymateb a'r tablau lle bo angen, neu eu darparu mewn atodiad ar wahân.

Adran 4: Manylion partneriaid (ar gyfer partneriaethau)

8.15 Mae Adran 4 o'r ffurflen gais yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n bartneriaethau (ac eithrio Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig). Llenwch Adran 4 o'r ffurflen os yw'r ymgeisydd yn Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig.

8.16 Os ydych yn gwneud cais fel:

a) Corff anghorfforedig, ewch i Adran 5 o'r ffurflen gais.

b) Unigolyn, ewch i Adran 6 o'r ffurflen gais.

8.17 Yn Adran 4, rydym yn gofyn am fanylion y partneriaid.

8.18 Os yw unrhyw bartner yn gwmni, bydd angen i'r ymgeisydd hefyd ateb cwestiynau 3.2, 3.3 a 3.4 yn Adran 3.

8.19 Os bydd unrhyw un o'r unigolion a enwir yn eich ymatebion yn cael eu hadnabod dan fwy nag un enw/fersiwn o'u henw, rhaid darparu pob enw.

8.20 Dylid ehangu neu ailadrodd y blychau ymateb a'r tablau lle bo angen, neu eu darparu mewn atodiad ar wahân.

Adran 5: Manylion aelodau llywodraethu (ar gyfer cyrff anghorfforedig heblaw partneriaethau)

8.21 Mae adran 5 o'r ffurflen gais yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n gyrff anghorfforedig.

8.22 Os ydych yn gwneud cais fel unigolyn, ewch ymlaen i Adran 6 o'r ffurflen gais.

8.23 Yn Adran 5, rydym yn gofyn am fanylion aelodau llywodraethu'r ymgeisydd.

8.24 Os bydd unrhyw un o'r unigolion a enwir yn eich ymatebion yn cael eu hadnabod dan fwy nag un enw/fersiwn o'u henw, rhaid darparu pob enw.

8.25 Dylid ehangu neu ailadrodd y blychau ymateb a'r tablau lle bo angen, neu eu darparu mewn atodiad ar wahân.

Adran 6: Gofynion cymhwys

8.26 Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod unrhyw un sy'n gwneud cais am drwydded ddarlledu yn addas ac yn briodol i ddal un.⁶

8.27 Wrth ystyried a yw ymgeisydd yn addas ac yn briodol i ddal trwydded, bydd Ofcom yn ystyried – er enghraifft – a oes gan unigolion sy'n debygol o arfer rheolaeth dros yr ymgeisydd a'i weithgareddau (e.e. cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr neu aelodau sylweddol)

⁶ O dan adran 3 o Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996.

unrhyw euogfarnau troseddol (mewn unrhyw awdurdodaeth), neu a ydynt erioed wedi cael eu datgan yn fethdalwyr.

- 8.28 Wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol, bydd nifer o faterion yn cael eu hystyried a allai gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
- Euogfarnau troseddol;
 - Methdaliad ac ansolfedd;
 - Anghymhwysio cyfarwyddwyr;
 - Gwaharddiad rhag perthyn i gorff proffesiynol neu fasnach; a
 - Chefnidir blaenorol ynghylch cydymffurfiaeth darlledu (e.e. ceisiadau am drwyddedau, sancsiynau).
- 8.29 Mae rhai cwestiynau yn yr adran hon yn gofyn am rifau trwydded blaenorol. Os nad ydych yn gwybod y rhain, nodwch y math o drwydded.
- 8.30 Ni fydd gwybodaeth a ddarperir yn yr adran hon o'r ffurflen o reidrwydd yn golygu na fydd yr ymgeisydd yn cael trwydded – bydd hyn yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r ymgeisydd yn ei gyfanrwydd – ond gall Ofcom ofyn am ragor o fanylion.

Anghymwysiadau/cyfyngiadau ar berchnogaeth

- 8.31 Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar berchnogaeth o dan Ran II o Atodlen 2 o Ddeddf Darlledu 1990 sy'n berthnasol i'r rheini a gaiff ddal trwyddedau darlledu Ofcom. Nid ydym yn manylu ar yr anghymwysiadau hyn yn y nodiadau cyfarwyddyd ond rydym yn gofyn cwestiynau perthnasol yn y ffurflen gais. Rydym yn argymhell bod ymgeiswyr posibl sy'n anghymwys, neu sy'n gysylltiedig â'r math hwn o berson a allai fod wedi'i anghymhwysio, yn ceisio cyngor annibynnol cyn gwneud cais. Ni fyddem yn gallu rhoi trwydded i berson sy'n anghymwys a byddai'n ofynnol i ni gymryd camau i ddirymu trwydded petai gwybodaeth yn dod i'r amlwg ar ôl dyfarnu bod trwyddedai yn anghymwys.
- 8.32 Mae'r canlynol ymysg y rheini sy'n anghymwys rhag dal trwydded RSL neu rhag rheoli cwmni trwyddedig:⁷
- awdurdod lleol;⁸
 - corff gwleidyddol;
 - corff crefyddol, heblaw pan fydd Ofcom yn fodlon ei bod yn briodol i berson penodol ddal trwydded ac yn gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw. Os ydych yn dymuno gofyn am benderfyniad o'r fath, edrychwch ar Ganllawiau Ofcom ar gyfer cyrff crefyddol sy'n gwneud cais am drwydded dan y Ddeddf Darlledu;
 - unrhyw gwmni a reolir gan unrhyw un o'r uchod neu gan eu swyddogion neu eu swyddogion cyswllt;

⁷ Yn unol â Gorchymyn Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

⁸ Ac eithrio pan fo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unig at ddibenion cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol o dan ddarpariaeth Adran 142 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) gan awdurdodau lleol o wybodaeth sy'n ymwneud â'u gweithgareddau.

- asiantaeth hysbysebu, neu unrhyw gwmni a reolir gan asiantaeth o'r fath neu y mae ganddo fwy na 5 y cant o fuddiant ynddi.

Yn ogystal â hyn, unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o drosedd drosglwyddo yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fel y nodir yn adran 89 BA90.⁹

- 8.33 Yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) mae gan Ofcom y pŵer i benderfynu, mewn rhai amgylchiadau, a oes gan berson sydd â llai na 50 y cant o gyfran reolaeth dros gwmni.
- 8.34 Mae'n drosedd i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ffug neu ddal gwybodaeth yn ôl gyda'r bwriad o gamarwain Ofcom os yw'r wybodaeth yn berthnasol wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn berson wedi'i anghymhwysu. Os ceir person yn euog mewn achosion o'r fath, gall y llys wneud gorchymyn yn gwahardd yr ymgeisydd rhag dal trwydded am gyfnod penoddedig. Mae gorchymyn anghymhwysu yn berthnasol i'r unigolyn dan sylw ac i unrhyw gwmni y mae'n gyfarwyddwr arno neu'n ymwneud â'i reoli (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).
- 8.35 Os bydd yr ymgeisydd neu lofnodwr y ffurflen yn methu, heb esgus rhesymol ar ddyddiad llofnodi'r datganiad, â datgan unrhyw fater y daw Ofcom i wybod amdano yn ddiweddarach, ac yr ydym o'r farn ei fod yn berthnasol i gymhwysedd yr ymgeisydd i ddal trwydded, byddwn yn ystyried hynny wrth benderfynu a yw'r ymgeisydd/trwyddedai yn dal i fod yn addas ac yn briodol i ddal trwydded.

Adran 7: Y gwasanaeth arfaethedig

- 8.36 Mae Adran 7 yn gofyn i chi gadarnhau a ydych yn gwneud cais am drwydded RSL ar gyfer digwyddiad neu i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall.
- 8.37 Os nad ydych chi'n siŵr o'ch ateb, defnyddiwch y blwch a ddarperir i roi disgrifiad manwl o'r hyn yr hoffech i'ch gwasanaeth arfaethedig ei gynnwys, a bydd y tîm Trwyddedu Darlledu yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch cynnig.

Adran 8: Y gwasanaeth arfaethedig – ar gyfer digwyddiad

- 8.38 Mae Adran 8 o'r ffurflen gais yn gofyn i chi ddisgrifio eich gwasanaeth rhaglenni a'i gynulleidfa darged os ydych yn gwneud cais am drwydded RSL ar gyfer digwyddiad.
- 8.39 Gallwch wneud cais am fwy nag un drwydded RSL ar gyfer digwyddiadau ar wahân ar yr un pryd. Dylai'r digwyddiadau fod o fewn cyfnod o dri mis i ddyddiad y digwyddiad cyntaf. Bydd trwyddedau ar wahân yn cael eu rhoi ar gyfer pob digwyddiad, os byddant yn cael eu caniatáu.
- 8.40 Os rhoddir trwydded, defnyddir yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn yr adran hon fel sail i atodiad i'ch trwydded. Dim ond yr hyn a nodir yn atodiad y drwydded y byddwch yn

⁹ Mae'n ofynnol hefyd i ymgeisydd y rhoddir trwydded iddo sicrhau nad yw person o'r fath sydd wedi'i gael yn euog yn ymwneud â gweithredu'r gwasanaeth neu'r orsaf nac yn ymwneud â gwneud ei raglenni.

cael eich awdurdodi i'w ddarlledu. Felly, mae'n bwysig eich bod yn darparu ymatebion cyflawn a manwl i'r cwestiynau yn yr adran hon.

- 8.41 Os byddwch yn derbyn trwydded a'ch bod yn penderfynu newid eich cynnwys wedi hynny, rhaid i chi gysylltu ag Ofcom ymlaen llaw fel bod y newid yn cael ei adlewyrchu'n benodol yn yr atodiad i'ch trwydded. Rhaid gwneud ceisiadau o'r fath yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk cyn unrhyw newid.

Pwrpas y gwasanaeth arfaethedig

- 8.42 Ni ddylai hyd unrhyw gyfnod darlledu RSL fod yn sylweddol hwy na chyfnod cynnal y digwyddiad dan sylw. Rydym yn debygol o wrthod ceisiadau os yw hyd arfaethedig y cyfnod darlledu go iawn ar gyfer cynnal y digwyddiad
- 8.43 Ni fyddwn fel arfer yn caniatáu mwy nag un drwydded ar gyfer darlledu digwyddiad yn yr un ardal (neu lle mae gorgyffwrdd sylweddol). Os derbynnir dau gais neu fwy ar gyfer yr un digwyddiad (fel sioe awyr, digwyddiadau ystwythder cŵn, carnifal) yn yr un ardal gyda'r un dyddiadau neu ddyddiadau sy'n gorgyffwrdd, byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd anfon llythyr o gefnogaeth atom gan drefnydd y digwyddiad i egluro pa gais y dylid bwrw ymlaen ag ef. Os nad yw'r naill gais na'r llall yn cael ei gefnogi gan drefnydd swyddogol y digwyddiad, neu os yw'r ddau gais yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cael eu derbyn ar yr un diwrnod, byddwn yn cynnal proses dewis ar hap.

Enw'r gwasanaeth arfaethedig

- 8.44 Mae'r ymgeisydd yn dewis yr enw ar gyfer ei wasanaeth arfaethedig. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod modd defnyddio'r enw.
- 8.45 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw llunio cytundebau gyda'r cyrff trwyddedu hawlfraint priodol cyn dechrau darlledu. Nid yw rhoi trwydded yn golygu bod gennych hawl i ddefnyddio enw penodol.
- 8.46 Mae Ofcom yn ystyried enw arfaethedig gwasanaeth mewn cais i'r graddau y gallai fod yn berthnasol i'r meini prawf trwyddedu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, materion sy'n ymwneud â Chod Darlledu Ofcom, fel defnyddio iaith anwedus a allai fod yn sarhaus i wrandawyr. Bydd enw'r gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn nhelerau eich trwydded, ac felly mae angen i ni gael gwybod am unrhyw newid arfaethedig cyn cyhoeddi eich trwydded.

Adran 9: Y gwasanaeth arfaethedig – i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall

- 8.47 Mae Adran 9 o'r ffurflen gais yn gofyn i chi ddisgrifio eich gwasanaeth rhaglenni a'i gynulleidfa darged os ydych yn gwneud cais am drwydded RSL i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall.
- 8.48 Os rhoddir trwydded, defnyddir yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn yr adran hon fel sail i atodiad i'ch trwydded. Dim ond yr hyn a nodir yn atodiad y drwydded y byddwch yn

cael eich awdurdodi i'w ddarlledu. Felly, mae'n bwysig eich bod yn darparu ymatebion cyflawn a manwl i'r cwestiynau yn yr adran hon.

- 8.49 Os byddwch yn derbyn trwydded a'ch bod yn penderfynu newid eich cynnwys wedi hynny, rhaid i chi gysylltu ag Ofcom ymlaen llaw fel bod y newid yn cael ei adlewyrchu'n benodol yn yr atodiad i'ch trwydded. Rhaid gwneud ceisiadau o'r fath yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk cyn unrhyw newid.
- 8.50 Os yw'r trwyddedai arfaethedig yn wahanol i'r person neu'r corff sy'n rhedeg y sefydliad y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer (er enghraifft, os nad yr Ymddiriedolaeth sy'n rhedeg yr ysbyty yw'r ymgeisydd am wasanaeth radio ysbyty), rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth gyda'r cais sy'n dangos bod y sefydliad perthnasol yn cefnogi'r cais.

Enw'r gwasanaeth arfaethedig

- 8.51 Mae'r ymgeisydd yn dewis yr enw ar gyfer ei wasanaeth arfaethedig. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod modd defnyddio'r enw.
- 8.52 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw llunio cytundebau gyda'r cyrff trwyddedu hawlfraint priodol cyn dechrau darlledu. Nid yw rhoi trwydded yn golygu bod gennych hawl i ddefnyddio enw penodol.
- 8.53 Mae Ofcom yn ystyried enw arfaethedig gwasanaeth mewn cais i'r graddau y gallai fod yn berthnasol i'r meini prawf trwyddedu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, materion sy'n ymwneud â Chod Darlledu Ofcom, fel defnyddio iaith anwedus a allai fod yn sarhaus i wrandawyr. Bydd enw'r gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn nhelerau eich trwydded, ac felly mae angen i ni gael gwybod am unrhyw newid arfaethedig cyn cyhoeddi eich trwydded.

Adran 10: Cydymffurfio

- 8.54 Mae Adran 10 o'r ffurflen gais yn gofyn i chi ddisgrifio'r trefniadau cydymffurfio ar gyfer y gwasanaeth trwyddedig arfaethedig, h.y. y trefniadau y bydd yr ymgeisydd yn eu rhoi ar waith i sicrhau y bydd y cynnwys y mae'n bwriadu ei ddarlledu yn cydymffurfio â'r rheolau a'r codau rheoleiddio perthnasol ar gyfer rhaglenni a hysbysebu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- [Cod Darlledu Ofcom](#)
 - [Cod y DU ar Ddarlledu Hysbysebion \(Cod BCAP\)](#)
 - [Cod Ymarfer yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn](#)
 - [Cod ar Atal Gwahaniaethu Gormodol rhwng Hysbysebwy'r Darlledu](#)
- 8.55 Rhaid bod gan yr ymgeisydd Swyddog Cydymffurfio.
- 8.56 Mae amod 15(2) o drwydded Deddf Darlledu RSL yn mynnu bod gennych weithdrefnau cydymffurfio ar waith, ac mae'r adran hon yn gofyn i chi ddangos eich bod yn gallu bodloni'r amod hwn yn y drwydded.
- 8.57 Rhaid i'r ymgeisydd allu mabwysiadu gweithdrefnau sy'n dderbyniol i Ofcom er mwyn sicrhau y bydd y gwasanaeth trwyddedig arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion y

drwydded, gan gynnwys cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan Ofcom. Gall gweithdrefnau o'r fath gynnwys:

- sicrhau bod digon o staff, a bod y staff yn ddigon uchel eu statws. Dylai'r holl staff ddeall gofynion y drwydded yn llawn (gan gynnwys cydymffurfiaeth â chodau a rheolau perthnasol) a'r safonau rhaglenni a hysbysebu sy'n berthnasol i'r gwasanaeth; a
 - gwneud trefniadau ar gyfer clirio hysbysebion yn ddigonol.
- 8.58 Cyfrifoldeb y trwyddedai yw sicrhau bod yr holl ddeunydd sy'n cael ei ddarlledu ar y gwasanaeth, yn fyw ac wedi'i recordio ymlaen llaw (gan gynnwys deunydd sy'n dod gan drydydd partïon) yn cydymffurfio â chodau a rheolau Ofcom.
- 8.59 Cyn i chi wneud cais am drwydded, mae'n bwysig eich bod yn darllen ein rhestr wirio [Cydymffurfio ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar y radio](#). Bwriad y rhestr wirio yw helpu ymgeiswyr a thrwyddedeion newydd i ddeall y rhwymedigaethau a'r rheolau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw fel amod o'u trwydded i ddarlledu gan Ofcom. Rhaid i ddarpar drwyddedeion fod yn ymwybodol o gwmpas posibl eu cyfrifoldebau rheoleiddio er mwyn gallu cynllunio a chyllido gweithdrefnau cydymffurfio cadarn yn gynnar.
- 8.60 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod rhaid i drwyddedeion roi manylion eu gweithdrefnau cydymffurfio i Ofcom, os byddwn yn gofyn amdanynt.
- 8.61 Gall Ofcom osod sancsiynau ar drwyddedai am dorri amodau'r drwydded yn ddifrifol, yn fwriadol, yn ailadroddus a/neu'n fyrbyyll (er enghraifft, os nad yw cynnwys y darllediadau'n cydymffurfio â'r codau a'r rheolau). Mae'r sancsiynau sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys rhoi cosb ariannol i'r trwyddedai, a/neu ddirymu'r drwydded.**

Hysbysebion a nawdd

- 8.62 Gallwch werthu amser ar yr awyr, fel cyfathrebiadau masnachol – h.y. hysbysebion (mewn egwylliau masnachol) a chyfeiriadau masnachol (golygyddol) – ar yr amod eich bod yn dilyn holl ofynion [Cod Darlledu Ofcom](#) a [Chod y DU ar Ddarlledu Hysbysebion](#) (h.y. Cod BCAP, sy'n cael ei orfodi gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu). Mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â darpariaethau'r Codau hyn. Gweler ein [Rhestr Wirio ar gyfer Cydymffurfio](#) am ragor o wybodaeth.

Hawlfraint

- 8.63 Y trwyddedai sy'n gyfrifol am ddod i gytundeb â'r rheini sy'n berchen ar hawlfraint neu hawliau perfformio i unrhyw elfen o'r deunydd y mae'n bwriadu ei ddarlledu.
- 8.64 Os ydych yn bwriadu darlledu cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio, rhaid i chi gysylltu â Phonographic Performance Ltd (PPL) a PRS for Music. Ni allwn roi cyngor ar ofynion hawlfraint na hawliau perfformio a dylech gysylltu â'r cyrff perthnasol yn uniongyrchol i gael gwybodaeth o'r fath.

Deunydd hyrwyddo

- 8.65 Rhaid i'r ffaith bod y gwasanaeth yn cael ei ddarlledu ar drwydded gwasanaeth cyfyngedig a'i hyd fod yn glir ar yr awyr ac mewn deunydd hyrwyddo ysgrifenedig. Ni ddylid awgrymu bod gwasanaeth cyfyngedig yn unrhyw fath arall o wasanaeth trwyddedig.

Cadw a chynhyrchu recordiadau

- 8.66 Os rhoddir trwydded i chi, rhaid i chi gadw, neu drefnu i gadw, recordiadau o bopeth a ddarlledir ar y gwasanaeth trwyddedig am gyfnod o 42 diwrnod. Os bydd Ofcom yn cael cwyn am y darllediad, byddwn yn gofyn am gopi o'r recordiadau er mwyn asesu'r gŵyn. Rhaid i recordiadau fod o safon ac mewn fformat sy'n caniatáu i Ofcom wrando ar y deunydd fel y cafodd ei ddarlledu. Rhaid i'r trwyddedai hefyd ddarparu sgrïptiau neu drawsgrifiadau i Ofcom o unrhyw ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth pan ofynnir iddo wneud hynny.

Adran 11: Materion technegol

- 8.67 Mae Adran 11 o'r ffurflen gais yn gofyn i chi ddisgrifio'r trefniadau technegol ar gyfer y gwasanaeth arfaethedig. Mae'r adran hon yn cynnwys cwestiynau am y safle trosglwyddo, bandiau amledd a Systemau Data Radio.
- 8.68 Mae'n rhaid i ddarllediadau RSL gydymffurfio â [Chod Peirianeg](#) Ofcom.

Safle stiwdio

- 8.69 Dylai'r gwasanaeth rhaglenni ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig fel arfer ddeillio o stiwdio o fewn, neu'n agos at, yr ardal ddarlledu. Rhowch rif ffôn stiwdio i ni, pan fydd ar gael.
- 8.70 Gyda chaniatâd Ofcom, os bydd eich stiwdio a'ch trosglwyddydd mewn gwahanol leoliadau, bydd angen i chi eu cysylltu drwy gyswllt telathrebu (e.e. IP neu gylched ffeibr) neu gyswllt radio. Os ydych chi eisiau defnyddio cyswllt radio sy'n gweithredu mewn band amledd heb drwydded,¹⁰ bydd angen i chi wneud cais i dîm Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig Ofcom am drwydded. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan Ofcom](#).

Ardal ddarlledu

- 8.71 Ni ddylai trwyddedeion RSL ddisgwyl i bob rhan o'u hardal ddarlledu ddewisol dderbyn signal perffaith. Efallai y bydd signal gwael mewn rhai rhannau o'r ardal ddarlledu, neu ddim signal o gwbl. Bydd hyn yn codi yn enwedig pan fydd y dirwedd a dwysedd adeiladau

¹⁰ Mae gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm sydd wedi'i esemptio o drwydded [ar gael ar wefan Ofcom](#).

yn rhwystro signalau i raddau mwy nag sy'n arferol, a hynny'n fwy aml pan fydd yr amledd yn destun signalau eraill sy'n dod i mewn ar yr un amleddau a'r amleddau cyfagos.¹¹

- 8.72 Os caiff eich gwasanaeth ei ddarlledu ar AM (tonfedd ganolig), mae'r ardal ddarlledu gytunedig ar gyfer darllediadau yn ystod oriau golau dydd. Er y bydd lefel y pŵer yr un peth ar ôl iddi dywyllu, gallai signal AM leihau yn ystod y cyfnod hwn – weithiau'n sylweddol – oherwydd ymyriant o'r tu allan. Cofiwch hyn wrth gynllunio gwasanaeth RSL i'w ddarlledu ar AM.
- 8.73 Mae RSLs sy'n gwasanaethu sefydliadau neu leoliadau diffiniedig eraill yn cael eu cyhoeddi i wasanaethu ardal o fewn ffiniau un safle sydd wedi'i ddiffinio'n glir. Ar gyfer trwyddedau AM ac FM, mae'n debygol y bydd rhywfaint o orlif o'r signal i ardaloedd y tu hwnt i'r safle trwyddedig yn ystod oriau golau dydd. Fodd bynnag, un o amodau'r drwydded yw nad yw'r ardal ychwanegol hon yn cael ei chydabod, naill ai ar yr awyr nac mewn deunydd hyrwyddo a chyhoeddusrwydd oddi ar yr awyr.

Safle trosglwyddydd

- 8.74 Rhaid i safle eich trosglwyddydd fod yn briodol ar gyfer y lleoliad yr ydych yn dymuno ei wasanaethu. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod safleoedd sy'n uchel iawn a allai ddarparu ardal ddarpariaeth amhriodol o fawr ar gyfer y math hwn o drwydded. Yn gyffredinol, mae cryfder signal mewn caeau a hwylustod signal yn gyffredinol yn cynyddu pan fyddant yn agosach at y trosglwyddydd, felly efallai y bydd rhaid i chi wneud cyfaddawd rhwng yr ardal gyffredinol dan sylw a pha mor hawdd yw'r signal yng nghraidd yr ardal darged.
- 8.75 Rhaid i'ch antena trosglwyddo fod yn y safle rydych chi'n ceisio ei wasanaethu. Mae'n bwysig bod gwybodaeth lawn a chywir yn cael ei rhoi am y safle o'ch dewis, gan gynnwys Cyfeirnod Grid Cenedlaethol chwe ffigur, cyfeiriad a chod post. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

Ardal ddarlledu a lefelau pŵer

Trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig a roddir i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall

- 8.76 Dim ond ar gyfer darpariaeth yn y sefydliad neu'r lleoliad hwnnw y gellir rhoi trwyddedau RSL ar gyfer sefydliad neu leoliad diffiniedig arall. Fel arfer, y radiws darlledu mwyaf ar gyfer RSLs o'r fath fydd 1km, gydag uchafswm pŵer o 2 wat ERP ar FM (a 300 miliwat¹² i 1 wat fel arfer), neu uchafswm o 1 wat EMRP ar AM.

Trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig a roddir at ddibenion digwyddiad

- 8.77 Gellir rhoi trwyddedau RSL at ddiben digwyddiad ar gyfer y ddarpariaeth mewn tref neu ran o ddinas, fel arfer radiws o 3km (2 filltir) mewn ardal drefol, neu radiws o 5-7km (3-4 milltir) mewn ardal wledig. Gosodir lefelau pŵer yn unol â hynny, gan ystyried lefelau

¹¹ I gael rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen ein dogfen o'r enw [Darpariaeth: Polisi Cynllunio, Diffiniadau ac Asesu](#).

¹² Y pŵer nodweddiadol ar gyfer sefydlu RSLs mewn 87.7 – 87.9 MHz yw 50mW

ymyriant hefyd, sy'n cyfyngu ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Bydd Ofcom yn asesu ardaloedd darpariaeth arfaethedig a safleoedd trosglwyddyddion yn ofalus, yn enwedig ar gyfer y lefelau pŵer uwch ar FM. Nodwch y canlynol:

- 8.78 Uchafswm y pŵer y gallwn drwyddedu RSLs digwyddiadau ar ei gyfer yw pŵer pelydru effeithiol (ERP) 25 wat ar FM. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer lleoliadau gwledig, gydag uchafswm arferol o 10 wat mewn ardaloedd trefol.
- 8.79 Fel arfer, bydd RSLs digwyddiadau yn gweithredu ar fwy na 2 wat ERP. Fodd bynnag, gellir trwyddedu lefelau pŵer is pan mai dim ond darpariaeth leol iawn sydd ei hangen (e.e. ar gyfer sinema yn-y-car, neu ar gyfer maes gwerysyla).
- 8.80 1 wat o bŵer pelydru monopol effeithiol (EMRP) yw'r uchafswm sydd ar gael ar AM.
- 8.81 Mae angen i chi ddarparu map yn dangos ardal ddaearyddol fwriadedig y gwasanaeth arfaethedig gyda'ch cais. Dylai'r map nodi lleoliad safle'r trosglwyddydd; lleoliad y digwyddiad neu'r sefydliad (os yw'n wahanol i'r safle trosglwyddo); a'r ardal lle dymunir signal derbynol. Dylech hefyd gyflwyno ffotograff o'r adeilad neu'r strwythur y bydd yr antena'n cael ei osod arno.

Amlleddau

- 8.82 Mae'r ddarpariaeth a geir ar amledd penodol ar gyfer pŵer penodol ac uchder erial yn amrywio yn ôl lefelau'r ymyriant sy'n bresennol. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cyfyngedig yn debygol o brofi lefelau uwch o ymyriant, yn enwedig ar gyrion eu hardal ddarlledu, na gorsafoedd radio masnachol a'r BBC. Mae ymyriant o'r fath yn debygol iawn o ddigwydd pan fydd gwasanaeth cyfyngedig yn defnyddio sbectrwm darpariaeth gyfyngedig. Ni all ymgeiswyr dybio y bydd lefelau ymyriant yn aros ar lefelau y gallent fod wedi'u profi yn y gorffennol, gan fod y defnydd o sbectrwm yn fwy a mwy gorlawn.
- 8.83 Caniateir trosglwyddiad stereo; fodd bynnag, efallai y byddai'n well gennych drosglwyddo mewn mono i wrthbwysio effaith ymyriant gan wasanaethau eraill. Gallai hyn gynyddu eich ardal ddarpariaeth effeithiol.
- 8.84 Gallwch ofyn am amledd a ffefrir yn y band FM neu AM. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y gellir clirio amledd y gofynnir amdano, ac ni ddylech dybio y byddwch yn cael yr un amledd eto os ydych wedi cael amledd penodol yn y gorffennol.¹³ Ni ellir gwarantu ychwaith y bydd amledd ar gael ar y band tonnau a ffefrir gennych, o ystyried bod amleddau addas mewn ardaloedd trefol yn brin.
- 8.85 Bydd amledd addas yn cael ei nodi a'i glirio ar gyfer pob cais a gymeradwyir. Mae'r broses clirio amledd yn caniatáu i Ofcom gynnal yr archwiliadau angenrheidiol i sicrhau bod yr amledd arfaethedig yn addas. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl o fewn y terfynau a bennir gan Ofcom er mwyn gallu clirio amledd yn brydlon. Mae gwneud cais yn gynnar yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle mae llawer o alw ac ychydig iawn o

¹³ Mae Ofcom yn ceisio cadw'r ystod amledd 87.7 – 87.9 MHz ar gyfer RSLs at ddefnydd digwyddiadau. Mae'n bosibl y bydd angen i RSLs sy'n gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall yn yr ystod honno symud i amleddau darpariaeth gyfyngedig amgen (os oes rhai ar gael) pan fydd eu trwyddedau presennol yn dod i ben.

amleddau FM addas (e.e. ardaloedd trefol fel Llundain Fwyaf). Mewn ardaloedd o'r fath, efallai y bydd rhaid i ni wrthod ceisiadau oherwydd diffyg amleddau FM addas.

- 8.86 Bydd cadarnhad o'r broses clirio amledd a'r amledd a ddyrannwyd yn cael ei ddarparu pan fydd eich ffioedd wedi dod i law a phan fydd eich trwydded wedi cael ei chyhoeddi. Pan fydd eich trwydded yn weithredol, bydd manylion eich amledd yn cael eu rhoi ar ein gwefan ochr yn ochr â gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'ch darllediad. Mae Ofcom yn cadw'r hawl i newid amledd a ddyrannwyd, os oes angen.

Nodweddion technegol

- 8.87 Mae'r amodau technegol sy'n rheoli'r gwaith o osod a gweithredu gwasanaethau cyfyngedig wedi'u nodi yn y ddogfen hon ac yng [Nghod Peirianeg](#) Ofcom. Ar adeg gwneud y cais, mae angen ymrwymiad arnom bod offer trosglwyddo (gan gynnwys erialau) yn cydymffurfio â'r amodau technegol hyn. Mae angen i ni fod yn fodlon bod y rhain yn dderbyniol cyn y gellir rhoi'r trwyddedau angenrheidiol. Mae'n bosibl y bydd eich offer yn cael ei archwilio, a bydd Swyddogion Ymchwilio Technegol Ofcom yn monitro eich trosglwyddiadau. Gall unrhyw ymyriant sylweddol a achosir i ddefnyddwyr eraill y sbectrum radio, neu unrhyw achos o dorri amodau trwydded, arwain at atal darllediadau ar unwaith.
- 8.88 Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr offer trosglwyddo y maent yn bwriadu ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofynion hanfodol perthnasol a nodir yn Rheoliadau Offer Radio 2017 ac ar gyfer Gogledd Iwerddon, yng Nghyfarwydddeb 2014/53/EU (Y Gyfarwydddeb Offer Radio). Er mwyn cydymffurfio â'r rhain, mae'n rhaid i'r offer fod naill ai
- Gyda marc UKCA arno os bydd yn cael ei ddefnyddio ym Mhrydain Fawr¹⁴
 - Gyda marc CE arno os bydd yn cael ei ddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon.

System Data Radio (RDS)

- 8.89 Mae'r System Data Radio (RDS) yn galluogi i ddata gael ei drosglwyddo i dderbynyddion radio drwy signal radio. Defnyddir RDS ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau, fel sganio am wybodaeth am draffig neu arddangos testun (ar ffurf enw gwasanaeth rhaglenni) ar sgrin arddangos radio.
- 8.90 Os ydych yn dymuno newid enw eich gwasanaeth rhaglenni, rhaid i chi gael caniatâd ymlaen llaw gan Ofcom. Ni chaniateir enwau gwasanaeth rhaglenni RDS sy'n sgrolio.
- 8.91 Os bydd eich gwasanaeth yn cynnwys bwletinau traffig rheolaidd, efallai yr hoffech ddefnyddio RDS i roi gwybod i yrwyr bod cyhoeddiad traffig ar fin cael ei ddarlledu. Gwneir hyn drwy ddefnyddio fflagiau rhaglenni traffig (TP), sy'n rhoi gwybod i radios ceir bod eich gorsaf yn darlledu bwletinau traffig. Rhaid defnyddio fflagiau TP ar y cyd â fflagiau cyhoeddi traffig (TA), sy'n achosi cynnydd yn lefel y sain i lefel sydd wedi'i diffinio ymlaen

¹⁴ Mae modd defnyddio dyfeisiau sydd â marc CE arnynt ym Mhrydain Fawr hyd at 1 Ionawr 2023

llaw a neges berthnasol i ymddangos ar y sgrin. Ni chaniateir trosglwyddo'r fflag TP oni bai bod rheolaeth ddeinamig dros y fflag TA ar gael.

- 8.92 Os ydych yn bwriadu trosglwyddo data radio drwy RDS, rhaid i chi nodi hyn ar eich ffurflen gais er mwyn i ni allu dyrannu cod dynodi rhaglen (PI). Mae angen cod PI ar bob trwyddedai sy'n bwriadu trosglwyddo gwybodaeth RDS.
- 8.93 Rhaid i'r holl ddata RDS fod yn gywir, ac yn unol ag IEC62106, y safon ryngwladol ar gyfer RDS.

Cyfyngiadau ar uchder antena

- 8.94 Uchafswm uchder antena ar gyfer trosglwyddiadau FM neu AM yw 20 metr uwchben lefel y ddaear. Efallai y bydd angen i ni osod cyfyngiadau ar bŵer a/neu uchder antena mewn rhai ardaloedd, fel rhanbarthau arfordirol, lle mae ymgeisydd yn dymuno darlledu ar FM, er mwyn osgoi'r angen am glirio rhyngwladol, neu i gyfyngu ar ymyriant o'r tu allan. Rydym yn cadw'r hawl i amrywio uchafswm pŵer a/neu uchder antena y cytunwyd arno mewn unrhyw ardal, os bydd problemau'n codi (e.e. ymyriant i ddefnyddwyr eraill y sbectrwm).
- 8.95 Ar gyfer gwasanaethau FM mewn stadiwm, dylid gosod yr erial pelydru o fewn arena'r stadiwm, ac ni ddylai fod yn uwch na'r talaf o'r prif strwythurau (heb gynnwys peilonau).

Polareiddiad yr antena

- 8.96 Caniateir i drwyddedeion ddefnyddio antenau sy'n trosglwyddo signalau naill ai yn y plân fertigol yn unig (polareiddio fertigol) neu gyfuniad o blantau fertigol a llorweddol (polareiddio cymysg). Caniateir i chi drosglwyddo ar y pŵer a awdurdodir gan eich trwydded ym mhob plân. Er enghraifft, os byddwch yn dewis polareiddio cymysg, byddai trwydded RSL sy'n awdurdodi pŵer trosglwyddyd o 1W yn caniatáu 1W yn y plân fertigol ac 1W yn y plân llorweddol.
- 8.97 Bydd angen i chi benderfynu pa fath o bolareiddio sy'n gweddu i'ch sefyllfa a nodi ar y ffurflen gais pa un rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio. Mae defnyddio polareiddio fertigol yn unig yn haws ac yn rhatach na pholareiddio cymysg, er y gall polareiddio cymysg arwain at signal gwell.

Trosglwyddiadau prawf

- 8.98 Dylid cynnwys unrhyw amser sydd ei angen ar gyfer trosglwyddiadau prawf o fewn y dyddiadau y gofynnir am y drwydded. Dylai cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud yn ystod trosglwyddiadau prawf gyfeirio at y ffaith eu bod ar gyfer trwydded gwasanaeth cyfyngedig, hyd y drwydded ac enw'r gwasanaeth.

Gwasanaethau wedi'u hamgryptio

- 8.99 Ni chaniateir gwasanaethau gyda signalau radio wedi'u hamgryptio. O ystyried y cyfyngiadau ar argaeledd sbectrwm radio analog, mae Ofcom yn ystyried ei bod yn ddyletswydd arno i sicrhau bod yr holl wasanaethau trwyddedig ar gael mor eang â phosibl

i ddarpar wrandawyr, ac mae amgryptio signalau – sy'n cyfyngu ar eu hargaeledd – yn mynd yn groes i'r egwyddor hon.

Problemau ymyriant

- 8.100 Mae'n bwysig bod cymorth technegol dibynadwy ar gael gennych. Gall methu â gwneud hynny arwain yn anfwriadol at ymyriant i ddefnyddwyr awdurdodedig eraill o'r sbectrwm (fel y gwasanaethau brys) gan olygu bod Ofcom yn cymryd camau i gau'r orsaf nes bydd y broblem wedi'i datrys. Rhaid glynu'n gaeth wrth amodau'r drwydded. Dylai'r orsaf hefyd gael ei dylunio, ei hadeiladu, ei chynnal a'i gweithredu fel nad yw'r defnydd ohoni'n achosi unrhyw ymyriant ag unrhyw delegraffiaeth ddi-wifr neu wasanaethau eraill.
- 8.101 Bydd unrhyw gamau heb eu hawdurdodi i gynyddu lefel y pŵer y tu hwnt i'r uchafswm a ganiateir, neu fel arall i newid y nodweddion a nodir yn y drwydded, yn cael eu trin yn ddifrifol iawn gan Ofcom, a gallai olygu bod Ofcom yn dirymu'r drwydded ac yn anghymhwyso'r trwyddedai rhag dal trwyddedau yn y dyfodol. Bydd deiliad y drwydded yn cael ei ddal yn gyfrifol os na chedwir at unrhyw un o delerau trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr neu drwydded y Ddeddf Darlledu.
- 8.102 Ar ôl cadarnhau'r amledd, efallai y bydd trwyddedeion yn dymuno gwirio'r amledd a neilltuwyd yn eu hardal gwasanaeth ddynodedig cyn lansio eu gwasanaeth.
- 8.103 Os, o fewn eich ardal gwasanaeth ddynodedig, byddwch yn dioddef o ymyriant ar yr amledd a ddyrannwyd i chi yn ystod eich darllediad neu'n dod o hyd i wasanaeth arall ar eich amledd, ffoniwch linell Gymraeg Ofcom ar 0300 123 2023 am gymorth neu 020 7981 3131 (gan ddewis opsiwn 2 ar gyfer ymyriant) am gymorth yn Saesneg, neu ewch i'r [adran Cwynion ynghylch Ymyriant ar ein gwefan](#).
- 8.104 Cofiwch na all Ofcom roi iawndal am unrhyw darfu i'ch gwasanaeth oherwydd gweithredoedd gweithredwr anghyfreithlon.

Ymyriant i offer electronig sensitif

- 8.105 Mae risg ddamcaniaethol y gallai defnyddio rhai mathau o offer trosglwyddo achosi ymyriant i offer electronig sensitif, fel cyfarpar monitro cleifion mewn ysbyty, neu offer labordy mewn prifysgol. Efallai y byddwn yn penderfynu cyfyngu ar y pŵer a drwyddedir os ydym yn credu y gallai fod risg o ymyriant, a gellir lleihau'r risg ymhellach drwy sicrhau bod offer trosglwyddo'n cael ei osod a'i gynnal a'i gadw gan beirianwyr cymwys, a bod y trosglwyddydd wedi'i leoli o bellter synhwyrol oddi wrth offer o'r fath. Fodd bynnag, ni allwn bennu'r risg dan sylw ym mhob sefyllfa bosibl.
- 8.106 Ni fydd Ofcom felly'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am unrhyw ymyriant a allai gael ei achosi i offer electronig gan yr offer sy'n cael ei ddefnyddio gan yr orsaf radio. Nid yw cyhoeddi trwydded yn golygu ein bod yn gwarantu nac yn cymeradwyo diogelwch gosodiad trosglwyddydd gorsaf. Mae hwn yn fater i'w ystyried gan yr ymgeisydd, y safle sy'n lletya a'r peiriannydd/peirianwyr sy'n gosod yr offer. Drwy lofnodi'r ffurflen gais am y drwydded, mae'r ymgeisydd yn nodi ei fod yn fodlon bod y risg hon wedi'i lleihau.

Rhagor o wybodaeth

- 8.107 I gael rhagor o wybodaeth am faterion technegol RSL, cysylltwch â'r tîm Peirianeg Radio Darlledu yn BroadcastRadioEng@ofcom.org.uk.

9. Ar ôl cael trwydded gwasanaeth cyfyngedig

- 9.1 Rhaid i chi ddarllen eich trwyddedau Deddf Darlledu a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn ofalus.
- 9.2 Isod mae rhywfaint o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i chi drwy gydol cyfnod eich trwydded.

Newidiadau i fanylion cyswllt

- 9.3 Os bydd unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt y darlledwr ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi, rhaid i'r trwyddedai hysbysu Ofcom ar unwaith drwy gysylltu â'r tîm Trwyddedu Darlledu dros e-bost (broadcast.licensing@ofcom.org.uk).

Cadw a chynhyrchu recordiadau

- 9.4 Rhaid i'r trwyddedai gadw, neu drefnu i gadw, recordiadau o bopeth a ddarllidir ar y gwasanaeth trwyddedig am gyfnod o 42 diwrnod. Os bydd Ofcom yn gofyn am gopi o unrhyw ddeunydd darlledu, rhaid i'r trwyddedai ddarparu hwn erbyn y dyddiad cau a roddir. Rhaid i recordiadau fod o safon ac mewn fformat sy'n caniatáu i Ofcom wrando ar y deunydd fel y cafodd ei ddarlledu. Rhaid i'r trwyddedai hefyd ddarparu sriptiau neu drawsgrifiadau i Ofcom o unrhyw ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth pan ofynnir iddo wneud hynny.

Cwynion yn ymwneud â'r gwasanaeth trwyddedig

- 9.5 Rhaid i drwyddedeion sicrhau bod ganddynt weithdrefnau ar waith sy'n dderbyniol i Ofcom ar gyfer ymdrin â chwynion am eu gwasanaeth, a'u datrys.
- 9.6 Rhaid i'r trwyddedai hefyd gydymffurfio â'r holl ddarpariaethau penodol sy'n ymwneud â chwynion am degwch (fel darparu trawsgrifiadau, copïau o ddogfennau a gohebiaeth yn ymwneud â'r gŵyn, recordiadau ac ati i Ofcom a'r achwynydd).
- 9.7 Os bydd Ofcom yn gofyn am hynny, rhaid i'r trwyddedai roi cyhoeddusrwydd i swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â chwynion.

Cydymffurfio â chyfyngiadau ar berchnogaeth

- 9.8 Mae Deddf Darlledu 1990 yn gosod nifer o gyfyngiadau ar bwy all ddal trwyddedau darlledu Ofcom. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai gydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn ar berchnogaeth a bydd methiant gan ddeiliad trwydded i wneud hynny yn gyfystyr â thorri'r drwydded, a allai arwain at ddirymu'r drwydded os na chaiff ei gywiro.

Sanctsiynau

- 9.9 Gall Ofcom osod sanctsiynau ar drwyddedai am dorri amodau'r drwydded yn ddifrifol, yn fwriadol, yn ailadroddus a/neu'n fyrbwyll (er enghraifft, os nad yw cynnwys y darllediadau'n cydymffurfio â'r codau perthnasol). Mae'r sanctsiynau sydd ar gael i Ofcom yn amrywio o fynnu bod y trwyddedai'n darlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom ar ei wasanaeth, i osod cosb ariannol ar y trwyddedai, a/neu ddirymu'r drwydded. I gael rhagor o wybodaeth am sanctsiynau, darllenwch [weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried sanctsiynau statudol am dorri amodau trwyddedau darlledu](#).

Darparu gwybodaeth a Hysbysiad i Ofcom

- 9.10 Erbyn y dyddiad cau a ddarperir, rhaid i'r trwyddedai roi i Ofcom unrhyw wybodaeth y gallai fod ei hangen arnom er mwyn cyflawni ein dyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw wybodaeth am strwythur corfforaethol y trwyddedai (os yw'n gwmni neu'n fath arall o sefydliad), neu unrhyw wybodaeth y gallai fod ei hangen ar Ofcom i benderfynu a yw'r trwyddedai ar unrhyw sail yn berson sydd wedi'i "anghymhwysu" o dan Atodlen 2, Rhan II o'r Ddeddf Darlledu.
- 9.11 Mae hefyd nifer o faterion y dylai trwyddedeion hysbysu Ofcom yn ysgrifenedig amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau i reolaeth y trwyddedai.
- 9.12 Sylwch fod y gofynion yn y drwydded ar gyfer darparu gwybodaeth a hysbysiadau i Ofcom yn eang, ac mai trosolwg byr yn unig yw hwn.

Trosglwyddiadau

- 9.13 Ar ôl rhoi trwydded, gellir ei throsglwyddo i drwyddedai newydd yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Ofcom. Bydd angen i Ofcom fod yn fodlon y byddai'r sawl y mae'n bwriadu trosglwyddo trwydded iddo mewn sefyllfa i gydymffurfio ag amodau'r drwydded, nad yw wedi'i anghymhwysu rhag dal trwydded Deddf Darlledu, a'i fod yn berson addas a phriodol.

Cydymffurfio ag amodau technegol trwydded

- 9.14 Heb ragfarn i unrhyw un o amodau technegol y drwydded, nac i gyfrifoldeb llwyr y trwyddedai i sicrhau eu bod i gyd yn cael eu parchu, mae angen RSLs i wasanaethu sefydliadau neu leoliadau diffiniedig eraill ar yr adeg, neu cyn yr adeg, y daw trosglwyddiadau i wasanaeth er mwyn darparu Ofcom gyda'r canlynol:
- 9.15 Ar gyfer gwasanaethau FM:
- Ffotograff o osodiad yr erial pelydru cyflawn yn gweithio.
 - Ffotograff o'r rhesel trosglwyddo.
 - Y math o drosglwyddydd.

- d) Braslun/diagram bloc o'r gosodiad arfaethedig, yn nodi'r math o antena, ac yn cynnwys cyfrifiadau gyda cholledion ceblau, gwanhawyr ac ati, i ddangos y pŵer trosglwyddo sydd ei angen ar gyfer y pŵer pelydru effeithiol (ERP) trwyddedig.
 - e) Adroddiad comisiynu o'r system, gan gynnwys amllder, gwyro, deiliadaeth sbectrwm, a harmoneg.
- 9.16 Ar gyfer gwasanaethau AM:
- a) Ffotograff o osodiad yr erial pelydru cyflawn yn gweithio.
 - b) Ffotograff o'r rhesel trosglwyddo.
 - c) Math y trosglwyddydd.
 - d) Rhestr o'r data/cyfrifiadau canlynol:
 - e) uchder yr antena pelydru ar ei bwynt uchaf uwchben lefel y ddaear (mewn metrau) ;
 - f) cyfrifiad o effeithlonrwydd system yr erial, ac uchder trydanol effeithiol;
 - g) braslun/diagram bloc o'r cludwr/erial a'r system gyfateb, yn dangos nodweddion allweddol pob elfen i gefnogi cyfrifiad (ii) uchod, a ffynhonnell y wybodaeth honno, h.y. mesuriad neu fanyleb y gwneuthurwr;
 - h) pŵer mesuredig allbwn y trosglwyddydd, fel y'i gosodwyd;
 - i) cerrynt mesuredig yr erial ar waelod yr erial pelydru.
 - j) Adroddiad comisiynu o'r system, gan gynnwys amllder, dyfnder modiwlleiddio, a harmoneg.
- 9.17 Gweler [Cod Peirianeg Safle Ofcom ar gyfer Systemau Trosglwyddo Darllediadau Radio Analog](#) am ragor o arweiniad ar brofion comisiynu AM/FM.
- 9.18 Darparu'r wybodaeth uchod trwy anfon e-bost i Broadcastradiocompliance@ofcom.org.uk.
- 9.19 Rhaid darparu'r wybodaeth ofynnol o fewn deg diwrnod gwaith o ddechrau'r drwydded. Gall methu â gwneud hynny arwain at gyfarwyddyd i roi'r gorau i ddarlledu.

A1. Ffioedd

Ffioedd trwydded

- A1.1 Ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n trosglwyddo ar gyfradd hyd at ac yn cynnwys 2 Wat, codir tâl dyddiol o £30 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £40 am ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, hyd at derfyn blynyddol o £150 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £200 ar gyfer ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr.
- A1.2 Ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n trosglwyddo ar gyfradd dros 2 Wat, codir tâl cyfradd dyddiol o £30 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £40 am ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, hyd at derfyn blynyddol o £900 am ffi trwydded y Ddeddf Darlledu a £1200 am ffi trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr.
- A1.3 Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o wasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu sefydliadau neu leoliadau diffiniedig eraill yn trosglwyddo ar gyfradd hyd at ac yn cynnwys 2 Wat, a bydd y rhan fwyaf o wasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu digwyddiadau yn trosglwyddo ar gyfradd dros 2 Wat.

Tabl 1: Tabl tariff Gwasanaethau Cyfyngedig - trosolwg

	Cyfradd ddyddiol ffi BA	Cyfradd ddyddiol ffi WTA	Cyfanswm ffioedd dyddiol	Terfyn blynyddol BA	Terfyn blynyddol WTA	Cyfanswm ffioedd blynyddol
Hyd at 2W	£30	£40	£70	£150	£200	£350
Dros 2W	£30	£40	£70	£900	£1200	£2100

Tabl 2: Gwasanaethau Cyfyngedig – taliadau dyddiol am ddarllediadau hyd at 2 Wat, hyd at y terfyn blynyddol

	Ffi BA	Ffi WTA	Cyfanswm Ffioedd
Cyfradd ddyddiol	£30	£40	£70
Dyddiau ar yr awyr			
1	£30	£40	£70
2	£60	£80	£140
3	£90	£120	£210
4	£120	£160	£280
5+	£150	£200	£350

Tabl 3: Gwasanaethau Cyfyngedig – taliadau dyddiol am ddarllediadau dros 2 Wat, hyd at y terfyn blyneddol

	Ffi BA	Ffi WTA	Cyfanswm Ffioedd
Cyfradd ddyddiol	£30	£40	£70
Dyddiau ar yr awyr			
1	£30	£40	£70
2	£60	£80	£140
3	£90	£120	£210
4	£120	£160	£280
5	£150	£200	£350
6	£180	£240	£420
7	£210	£280	£490
8	£240	£320	£560
9	£270	£360	£630
10	£300	£400	£700
11	£330	£440	£770
12	£360	£480	£840
13	£390	£520	£910
14	£420	£560	£980
15	£450	£600	£1,050
16	£480	£640	£1,120
17	£510	£680	£1,190
18	£540	£720	£1,260
19	£570	£760	£1,330
20	£600	£800	£1,400
21	£630	£840	£1,470
22	£660	£880	£1,540
23	£690	£920	£1,610
24	£720	£960	£1,680
25	£750	£1,000	£1,750
26	£780	£1,040	£1,820
27	£810	£1,080	£1,890
28	£840	£1,120	£1,960
29	£870	£1,160	£2,030
30+	£900	£1,200	£2,100

Ffioedd ymgeisio


- A1.4 Am RSL ar gyfer digwyddiad, bydd ffi ymgeisio o £400 nad oes modd ei had-dalu yn daladwy.¹⁵
- A1.5 Am RSL i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall, bydd ffi ymgeisio o £200 nad oes modd ei had-dalu yn daladwy.

Ffioedd diwygio

- A1.6 Os yw ymgeisydd yn dymuno diwygio manylion ei gais ar ôl i Ofcom ei dderbyn, ond cyn i drwydded gael ei rhoi, mae ffi diwygio o £200 yn daladwy.
- A1.7 Dylai'r diwygiadau ond ymwneud â newidiadau nad oes angen ailgynllunio amledd ar eu cyfer, fel newid deiliad arfaethedig y drwydded.
- A1.8 Bydd unrhyw newidiadau i safle'r trosglwyddydd neu ddyddiadau darlledu fel arfer yn golygu cost trwydded WTA newydd.

¹⁵ Os ydych yn gwneud cais am drwyddedau gwasanaeth cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ar wahân o fewn cyfnod o dri mis i ddyddiad y digwyddiad cyntaf, mae'r ffi ymgeisio hefyd yn £400

A2. Sut i gyfrifo'r ffioedd trwydded



- A2.1 Er enghraifft, byddai ymgeisydd sy'n darlledu ar 2 Wat am 3 diwrnod yn talu £210 mewn ffioedd trwydded.
- A2.2 Byddai ymgeisydd sy'n darlledu ar 10 Wat am 28 diwrnod yn talu £1,960 mewn ffioedd trwydded.
- A2.3 Ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sydd â chyfnod trwydded o fwy na blwyddyn, mae'r ffioedd trwydded yn daladwy bob blwyddyn ar ben-blwydd dyddiad dyfarnu'r drwydded, tan ddiwedd cyfnod y drwydded.